

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd	Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2016	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30	0300 200 6565
	Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru

Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2015, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 1 o'r cyfarfod a gynhelir ar 14 Ionawr 2016, o dan Reol Sefydlog 17.42(vi).

- 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: paratoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar**
(09.30 – 09.45) (Tudalennau 1 – 25)
- 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon**
(09.45)
- 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17: Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog**
(09.45 – 11.15) (Tudalennau 26 – 76)

Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Vaughan Gething AC, y Dirprwy Weinidog Iechyd

Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Martin Sollis, Cyfarwyddwr Cyllid



Gwybodaeth ategol:

[Gohebiaeth rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch elfennau o Gyllideb Ddrafft Llwyodraeth Cymru 2016-17 sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.](#) [Saesneg yn unig].

4 Papurau i'w nodi

(11.15)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2015

(Tudalennau 77 – 80)

Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

(Tudalennau 81 – 82)

5 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac ar gyfer eitem 1 y cyfarfod ar 20 Ionawr 2016

(11.15)

6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17: trafod y dystiolaeth

(11.15 – 11.30)

7 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru: trafod y deilliannau

(11.30 – 11.45)

(Tudalennau 83 – 98)

8 Etifeddiaeth Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad: trafod y dull gweithredu

(11.45 – 11.55)

(Tudalennau 99 – 101)

9 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafodaeth am y drefn o ran ystyried trafodion Cyfnod 2

(11.55 – 12.00)

(Tudalennau 102 – 103)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3

Oddi Wrth: y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

At: y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dyddiad: 14 Ionawr 2016

Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2016-17

Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd ar 16 Hydref yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar y cynigion sydd ganddynt yn y Gyllideb Ddrafft a gofyn iddynt gyflwyno papur ar y Gyllideb Ddrafft.

Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar 8 Rhagfyr 2015. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gynigion cyllidebol Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016-17.

Trosolwg o'r Gyllideb

	2016-17
Refeniw	£m
Gwaelodlin DEL diwygiedig 2015-16	6486.5
Dyraniad MEG	260.0
Trosglwyddiadau MEG i MEG	(15.3)
DEL diwygiedig ar adeg Cyllideb Ddrafft 2015	6731.2
Cyfalaf	
Gwaelodlin DEL diwygiedig 2015-16	219.6
Dyraniad MEG	33.4
DEL diwygiedig ar adeg Cyllideb Ddrafft 2015	253.0
Cyfanswm Cyffredinol MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	6984.2

Nid yw'r tabl yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) am nad yw'n rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.

Caiff y newidiadau o gyllideb ddiwygiedig 2015-16 eu crynhoi isod:

Refeniw: Cynnydd o £244.6 miliwn

Dyraniad MEG

- **£200.0 miliwn** o fuddsoddiad ychwanegol yn unol â blaenoriaeth adolygiad o wariant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru
- **£30.0 miliwn** i gynyddu'r Gronfa Gofal Canolraddol i £50.0 miliwn
- **£30.0 miliwn** i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ac iechyd meddwl **MEG i MEG**
- **£(14.8) miliwn** i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas ag ad-dalu cynlluniau Buddsoddi i Arbed
- Trosglwyddiad o **£(0.5) miliwn** i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas ag Arolwg Iechyd Cymru ar ôl integreiddio sawl arolwg mawr, sefydledig i greu un arolwg.

Cyfalaf:

Dyraniad MEG

- **£33.4 miliwn** o fuddsoddiad ychwanegol yn rhaglen gyfalaf Cymru Gyfan

Mae manylion yr holl drosglwyddiadau i'w gweld yn Atodiad A i'r papur hwn a cheir dadansoddiad yn ôl lefel BEL yn Atodiad B.

Asesiad Effaith Integredig - Atodiad C

O ganlyniad i gyfyngiadau amser eleni, roedd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb ar 8 Rhagfyr yn canolbwyntio ar y penderfyniadau gwariant strategol hynny a adlewyrchai flaenoriaethau'r Cabinet wrth iddo wneud ei benderfyniadau.

Cytunwyd y câi manylion am benderfyniadau gwariant penodol eu cynnwys mewn papurau tystiolaeth gan Weinidogion i Bwyllgorau'r Cynulliad. Mae Atodiad C i'r papur hwn yn manylu ar effaith yr holl benderfyniadau gwariant pwysig o fewn y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Y Cynigion Cyllidebol

Y newid cyllidebol mwyaf sylweddol i'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2016-17 yw'r buddsoddiad ychwanegol o £260 miliwn mewn gofal iechyd, a ddangosir o fewn y Cam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd'. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn golygu bod y gyllideb hon yn fwy nag y bu erioed a bydd yn cyfrif am 48 y cant o'r cyllid a ddyrannwyd i Adrannau Llywodraeth Cymru yn 2016-17.

Cefnogir y buddsoddiad hwn gan dystiolaeth yr adolygiad annibynnol o gyllid GIG Cymru a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014. Dylanwadodd canfyddiadau ei hadroddiad, sef 'Degawd o Galedi yng Nghymru', ynghyd â'r wybodaeth o gynlluniau integredig y Byrddau Iechyd Lleol, ar ein penderfyniad i ddarparu £225m yn ychwanegol i'r GIG yn 2015-16. Wrth baratoi ar gyfer y Gyllideb eleni ac fel rhan o'r gwaith trawsbynciol a wnaed gennym i ystyried sut y gallwn reoli pwysau o fewn ein prif feysydd gwasanaeth, aethpwyd ati i ddiweddarau model Nuffield er mwyn adlewyrchu'r tybiaethau diweddaraf ynglŷn â phwysau gwariant ac effeithlonrwydd yn y GIG. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad clir i sicrhau GIG cynaliadwy yng Nghymru yn seiliedig ar y diwygiadau a nodir yn adroddiad Nuffield, sydd hefyd yn cydnabod bod lle i'r GIG barhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Fel rhan o'n hymrwymiad i atgyfnerthu gofal sylfaenol a chymunedol, defnyddir £30m o'r £260m i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r Gronfa Gofal Canolraddol yn 2016-17 o £20m i £50m.

Mae'r angen i sicrhau bod mwy o integreiddio yn digwydd rhwng iechyd a gwasanaethau gofal wedi bod yn hanfodol wrth gynllunio Cyllideb Ddrafft 2016-17, yn enwedig os ceir tystiolaeth y gallwn gael mwy o effaith drwy ddeall sut y gall y GIG, llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill gydweithio'n well er mwyn ateb yr heriau sy'n ein hwynebu. Wrth greu ein cynlluniau, rydym wedi defnyddio dull o weithredu sy'n seiliedig ar 'systemau cyfan', er mwyn cynnal asesiad ehangach o'r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhyngweithio ag amrywiaeth o ymyriadau cymorth eraill i ddiwallu anghenion pobl.

Caiff manylion y rhesymeg dros y cyllid ychwanegol hwn eu cynnwys ym mhrif ddogfennau'r gyllideb a ryddhawyd pan gafodd y gyllideb ei chyhoeddi ar 8 Rhagfyr.

Er mwyn helpu gwaith craffu'r Pwyllgor a rhoi dealltwriaeth well o'r ffordd y mae'r GIG yn gwario'r cyllid a ddyrennir iddo o fewn y Cam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd', mae'r adran ganlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am drefniadau cyllido Byrddau Iechyd Lleol.

Trefniadau cyllido Byrddau Iechyd Lleol

Yn y tablau BEL a ddangosir yn Atodiad B, mae'r cam gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd yn dangos cyllideb o £5.9bn ar gyfer 2016-17. Ac eithrio rhai mân addasiadau, y gyllideb hon yw'r prif ddyraniad refeniw a roddir i'r Byrddau Iechyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r dyraniad yn darparu cyllid ar gyfer y canlynol:

- Dyraniad refeniw yn ôl disgrisiwn ar gyfer Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol (HCHS) a Phresgripsiynu.
- Gwasanaethau HCHS sydd wedi'u diogelu a'u clustnodi.
- Dyraniad y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Dyraniad y Contract Fferylliaeth Gymunedol
- Dyraniad y Contract Deintyddol

Cafodd dyraniad refeniw Byrddau Iechyd ar gyfer 2016-17 ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015, gan rannu'r dyraniadau rhwng y llifioedd cyllid amrywiol a ddangosir uchod. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniad fesul Bwrdd Iechyd.

Dyraniadau Refeniw Byrddau Iechyd ar gyfer 2016-17

Bwrdd Iechyd	Dyraniad Disgrisiwn a Phresgripsiynu	Dyraniad a glustnodwyd	Contract GMC	Contract Fferylliaeth	Contract Deinyddol	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
ABM	688.528	158.900	72.996	29.335	26.756	976.516
AB	772.424	130.803	83.392	31.453	26.604	1,044.676
BC	917.930	184.689	113.391	33.471	26.760	1,276.242
C a'r Fro	564.046	110.687	63.119	22.218	24.033	784.103
CT	416.145	82.234	44.409	18.501	11.581	572.870
H Dda	490.388	101.247	59.386	20.923	17.368	689.312
Powys	171.725	38.104	30.176	4.753	5.503	250.261
Cyfanswm	4,021.186	806.666	466.869	160.654	138.605	5,593.980

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys y **£200m ychwanegol** ar gyfer y GIG a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2016-17. Nid wyf wedi penderfynu eto sut yn union y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddarparu a thrawsnewid gwasanaethau yn 2016-17. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu dosbarthu'r cyllid hwn i'r GIG ar sail cyfrannau poblogaeth ac ysgrifennais at Gadeiryddion ar 21 Rhagfyr yn eu hysbysu o'r bwriad hwnnw er mwyn eu galluogi i gynllunio yn unol â hynny.

Nid wyf yn bwriadu sefydlu trefniadau rheolaidd i ddyrannu'r £65 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn 2015-16 ar gyfer gofal sylfaenol, cynlluniau cyflawni, technoleg iechyd ac iechyd meddwl hyd nes bod y prosiectau a roddwyd ar waith yn y flwyddyn ariannol bresennol wedi'u hadolygu. Nid wyf wedi penderfynu eto chwaith sut y caiff y £30 miliwn ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ac iechyd meddwl a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft ei ddefnyddio a'i ddsbarthu. Fodd bynnag, fy mwriad clir yw y bydd y £65m ar gael unwaith eto yn 2016-17 at yr un dibenion.

Nid yw dyraniadau refeniw'r Byrddau Iechyd Lleol yn cynnwys y Gronfa Gofal Canolraddol, sydd bellach yn werth £50 miliwn yn 2016-17, a gaiff ei dosbarthu drwy'r trefniadau partneriaeth â llywodraeth leol a'r trydydd sector.

O fewn y Cam Gweithredu 'Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd', ceir rhai eitemau cyllid a ddsberthir i'r Byrddau Iechyd yn ystod y flwyddyn, ar sail costau gwirioneddol/meini prawf y cytunwyd arnynt a allai amrywio o flwyddyn i flwyddyn, felly ni chânt eu cynnwys yn y symiau cyllid rheolaidd uchod. Mae'r eitemau gwariant hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:

- Cyllid o ran Camddefnyddio Sylweddau
- Costau Hyfforddeion Deintyddol a Fferyllol

Dyraniad Disgresiwn BILlau

Isod, ceir dadansoddiad hanesyddol lefel uchel, yn ôl categori cost, o fwyafrif y gwariant o fewn dyraniad disgresiwn BILlau a ddangosir uchod, a gymerwyd o flwyddyn ariannol 2014-15:

DADANSODDIAD O WARIANT BILL YN ÔL MATH 2014-15	Cyfansymiau	
	BILlau	
<u>REFENIW - GWARIANT AR GYFLOGAU</u>	£m	£m
CYFANSWM CYFLOGAU STAFF Y GIG		2744.6
CYFANSWM CYFLOGAU STAFF O'R TU ALLAN I'R GIG		86.6
Cydnabyddiaeth cadeiryddion ac aelodau anweithredol		1.8
CYFANSWM GWARIANT REFENIW AR GYFLOGAU		2833.0
<u>REFENIW - GWARIANT AR EITEMAU HEBLAW CYFLOGAU</u>		
Cyfanswm cyflenwadau clinigol	539.1	
Cyfanswm gwasanaethau a chyflenwadau cyffredinol	56.4	
Cyfanswm gwariant sefydlu (Teithio, argraffu, deunydd ysgrifennu ac ati)	70.0	
Cyfanswm safleoedd a pheiriannau sefydlog	135.0	
Cyfanswm dibrisiant/lleihad asedau sefydlog a gwrthdroadau	133.7	
Cyfanswm staff ymgynghorol allanol ac ymgynghoriaeth	9.3	
Cyfanswm amrywiol	53.7	
CYFANSWM GWARIANT REFENIW AR EITEMAU HEBLAW CYFLOGAU		997.2
Crynodeb o Wariant Refeniw - BILlau 2014-15		3830.2

Dyraniad a Glustnodwyd


O fewn y dyraniad cyllid a glustnodwyd, y prif elfennau yw **£587m** i wasanaethau lechyd Meddwl, **£139m** ar gyfer costau dibrisiant a **£134m** ar gyfer Anableddau Dysgu/Gwasanaethau Arennol.

Gwariant yn ôl Categori Cyllideb Rhaglenni

Gellir dadansoddi gwariant hanesyddol ymhellach yn ôl categori Cyllideb Rhaglenni. Caiff y wybodaeth hon ei chynhyrchu bob blwyddyn ond ni fydd ar gael nes tuag wyth mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. O ganlyniad, mae'r wybodaeth a ddangosir isod yn seiliedig ar wariant yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14. Nodir y meysydd gwariant yn y graff isod:

Main areas of NHS Expenditure

(by Programme Budget Category)*



Mae'r siart uchod yn dangos y prif feysydd gwariant yn y GIG yng Nghymru. Daw'r wybodaeth o ddatganiadau cyllidebu rhaglenni ar gyfer 2013-14 ac mae'n cwmpasu dros 90% o'r gwariant yn ystod y flwyddyn honno (tua £5.2bn). DS Nid yw gwybodaeth cyllideb rhaglenni ar gyfer 2014-15 ar gael eto.

*Mae'r categorïau gwariant a ddangosir uchod yn seiliedig ar Ddosbarthiad Clefydau Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd.

Meysydd o Ddiddordeb a Nodir yn y Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor:

Trawsnewid gwasanaethau - Sut mae dyraniadau cyllid yn adlewyrchu nod Llywodraeth Cymru o symud gwasanaethau o'r ysbyty i'r gymuned.

Mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cynnwys cyflawni Cymru ffyniannus, gydnerth, fwy cyfartal ac iachach, drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn creu Cymru iachach a sicrhau gwasanaethau iechyd cynaliadwy, nod Llywodraeth Cymru yw newid pwyslais y system iechyd o salwch ac ysbytai i wella iechyd, gan sicrhau bod gan bobl fynediad teg i'r rhan fwyaf o'r gofal sydd ei angen arnynt mor agos i gartref â phosibl, yn seiliedig ar ethos o gyd-gynhyrchu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith statudol yn seiliedig ar lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Drwy'r fframwaith hwn, bydd modd darparu gwasanaethau mwy integredig sy'n canolbwyntio ar y gymuned a bydd y cynnydd o £30 miliwn a welwn eleni i'n cronfa gofal canolraddol, i £50 miliwn, yn cefnogi'r newid hwnnw.

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos mai gofal sylfaenol yw elfen graidd pob system iechyd gynaliadwy. Mae ein cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol yn nodi sut y byddwn yn creu system iechyd gynaliadwy ac effeithiol drwy fodel mwy cymdeithasol o iechyd a llesiant. Mae hyn yn creu ymateb i anghenion pobl sy'n cynnwys ac yn gwneud defnydd darbodus o'r holl adnoddau ariannol, staff ac adnoddau eraill sydd ar gael, ac nid dim ond adnoddau GIG Cymru, gan helpu pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid symud y cydbwysedd o ran gofal ac adnoddau - gan gynnwys y gweithlu a chyllid - o ysbytai i'r gymuned fel bod pobl ond yn mynd i'r ysbyty pan fo hynny'n briodol. Ceir tystiolaeth i ddangos bod gwaith i asesu anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio sut y caiff adnoddau eu defnyddio er mwyn diwallu'r anghenion hynny, ar ei fwyaf effeithiol pan gaiff ei wneud yn lleol iawn - gan ganolbwyntio ar tua 25,000 i 100,000 o bobl. Mae byrddau iechyd wedi sefydlu, ac maent wrthi'n datblygu, eu 64 o glystyrau gofal sylfaenol - grwpiau o bractisau meddygon teulu a darparwyr gwasanaethau lleol eraill - er mwyn cydweithio i rannu eu gwybodaeth am anghenion lleol.

Mae Cyllideb Ddrafft 2016-17 yn cefnogi'r nod strategol hwn. Mae'n cynnwys ymrwymiad i barhau i ddarparu'r £40m ar gyfer gofal sylfaenol. Y tair blaenoriaeth ar gyfer y cyllid hwn yw helpu i greu gwasanaeth cynaliadwy, gwella mynediad a symud gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned.

Wrth i'n poblogaeth gynyddu, mae'r baich sy'n gysylltiedig â chyflyrau cronig yn cynyddu hefyd. Mae Cyllideb Ddrafft 2016-17 yn cynnwys ymrwymiad i barhau i ddarparu'r **£10m ychwanegol** ar gyfer y deg cynllun cyflawni: canser, strôc, diabetes, diwedd oes, cyflyrau niwrolegol, anadlol, clefyd y galon, gofal critigol, yr afu ac iechyd meddwl.

Tystiolaeth o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn monitro gweithgarwch er mwyn sicrhau diwygiadau ystyrlon i wasanaethau a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion.

Ym mis Ebrill 2015, lanswyd Fframwaith Canlyniadau trosiannol y GIG. Dyma oedd y cam cyntaf yn y broses o fonitro gwaith y GIG ar sail canlyniadau. Bydd y Fframwaith Canlyniadau yn pennu llwyddiant y GIG wrth gynllunio a darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd er mwyn helpu i wella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru yn flynyddol. Y Fframwaith hwn hefyd fydd yn gosod y sylfaen ar gyfer cyfeiriad iechyd a gofal yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru, y GIG a'r cyhoedd.

Mae dwy ran i'r fframwaith - dangosyddion poblogaeth (a gaiff eu monitro'n flynyddol) a mesurau perfformiad (a gaiff eu monitro drwy'r flwyddyn). Mae'r dangosyddion poblogaeth a'r mesurau perfformiad yn seiliedig ar set o ganlyniadau poblogaeth y cytunwyd arni o fewn saith maes allweddol.

Mae'r fframwaith yn amlygu rôl y GIG o ran darparu gwasanaethau iechyd sy'n gwneud gwahaniaeth. Er enghraifft, caiff y dangosydd poblogaeth sy'n monitro 'canran y plant â dannedd sy'n bydredig, ar goll neu wedi'u llenwi' ei ategu gan fesur perfformiad y GIG 'canran poblogaeth y bwrdd iechyd sy'n cael gofal deintyddol o dan y GIG yn rheolaidd'. Enghraifft arall o'r dull hwn o weithredu yw y caiff y dangosydd poblogaeth 'cyfradd fras o ardystiadau newydd ar gyfer pobl yr aseswyd bod ganddynt nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg oherwydd glawcoma, AMD a chlefyd y llygaid diabetig', ei ategu gan fesur perfformiad y GIG 'targed aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth o 26 wythnos'.

Fel rhan o'r Fframwaith Canlyniadau, ymrwymwyd i ehangu'r meysydd monitro i gynnwys pob agwedd ar iechyd a llesiant (nid dim ond afiechyd) a chanolbwyntio ar wella yn hytrach na "gosod targedau" (sy'n gallu arwain at ymddygiad gwrthnysig). Er y bydd yn cymryd amser i ddatblygu mesurau newydd sydd wir yn canolbwyntio ar ganlyniadau a dangos p'un a yw "pobl yn well eu byd", mae grŵp cenedlaethol (sy'n cynnwys y GIG) yn symud y gwaith hwn yn ei flaen. O ganlyniad, gobeithio y bydd mesurau yn y dyfodol yn canolbwyntio mwy ar yr effaith a gaiff gofal ar iechyd a llesiant dinasyddion Cymru yn hytrach na dim ond mesur y broses.

Mae'r cynlluniau i gyflawni mesurau'r Fframweithiau Canlyniadau a Chyflawni yn rhan hanfodol o'r broses adolygu a chymeradwyo ffurfiol ar gyfer y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI). Ynghyd â datblygu a chymeradwyo CTCIau, rhaid cael dull cyflawni cadarn, gan gynnwys trefniadau rheoli, monitro ac uwchgyfeirio effeithiol. Caiff gwaith sefydliadau ei fonitro yn erbyn y cynlluniau hyn.

Bydd rôl Llywodraeth Cymru wrth fonitro gwaith sefydliadau'r GIG yn dibynnu ar statws CTCI y sefydliad. Fan lleiaf, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gwaith drwy ei threfniadau rheoli perfformiad arferol (sy'n cynnwys datganiadau safonol

ac adolygu cynnydd mewn cyfarfodydd Ansawdd a Chyflawni a chyfarfodydd JET). Yn achos sefydliadau nad oes ganddynt CTCI cymeradwy, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am lawer mwy o fanylion am y tybiaethau allweddol sy'n sail i'r proffiliau a gynlluniwyd ganddynt.

Efallai y bydd adegau pan na fydd sefydliad yn cyflawni fel y cynlluniwyd ac yn peri pryder. Yn yr achosion, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei threfniadau uwchgyfeirio. Wrth asesu uwchgyfeiriad, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried darlun cyflawn o'r sefydliad cyn penderfynu pa gamau y bydd yn eu cymryd i gael sicrwydd ynglŷn â chyflawni. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y broses uwchgyfeirio ar gyfer 2016-17 yn gyson â'r Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddatblygu gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru.

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu system a fydd yn canolbwyntio ar lesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi canlyniadau i'w cyflawni mewn perthynas â Llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt. Rhaid i Weinidogion Cymru adrodd ar y cynnydd a wneir i sicrhau Llesiant. Diffinnir Llesiant yn y Ddeddf ac mae'n cyfeirio at bob agwedd ar fywyd person. Bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a darparwyr gwasanaethau yn helpu i sicrhau Llesiant.

Mae'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio'r canlyniadau Llesiant pwysig ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, ynghyd â'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol i fesur y canlyniadau Llesiant hynny. Mae'r fframwaith yn gosod cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer hybu Llesiant. Fe'i cyhoeddwyd ar wefan Fy Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol ac mae'n cynnig ffordd dryloyw o adrodd ar lesiant ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro a yw gwasanaethau gofal a chymorth yn helpu pobl i wella canlyniadau Llesiant ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

I gefnogi hyn, rhaid dwyn gwasanaethau i gyfrif am helpu pobl i sicrhau Llesiant. Mae'r cod ymarfer ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf, yn gosod fframwaith i fesur cyfraniad awdurdodau lleol tuag at swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i wella Llesiant. Mae'r fframwaith yn cynnwys safonau ansawdd a mesurau perfformiad. Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar y mesurau o fis Ebrill 2016 ymlaen a fydd yn dangos p'un a yw awdurdodau lleol yn helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Mae fframwaith arolygu awdurdodau lleol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrthi'n cael ei ddatblygu yn unol â'r Ddeddf. Bydd y fframwaith arolygu yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bydd yr arolygiadau eu hunain yn seiliedig ar y fframwaith perfformiad a nodir yn y cod ymarfer.

Beth yw targedau effeithlonrwydd 2016-17 yn y sector iechyd a sut y caiff y rhain eu monitro/dilysu.

Mae Cyllideb Ddrafft 2016-2017 yn nodi bod y buddsoddiad ychwanegol yn y GIG yn seiliedig ar dystiolaeth o ddiweddarad i'r model a ddatblygwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield i adlewyrchu'r tybiaethau diweddaraf ynglŷn â phwysau gwariant ac effeithlonrwydd yn y GIG. Yn ôl y gwaith modelu hwn, tybiwyd y byddai modd parhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o tua 1% mewn termau real bob blwyddyn, yn sgil arbedion effeithlonrwydd yn y sector aciwt a threfniadau gwell i reoli cleifion â chyflyrau cronig er mwyn atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gosod targedau effeithlonrwydd ariannol penodol ar gyfer sefydliadau'r GIG, ond bydd disgwyl iddynt ateb yr heriau ariannol sy'n gysylltiedig â phwysau cost a chynnydd mewn galw gan ddefnyddio'r ddarpariaeth yn y setliad hwn. Caiff effeithlonrwydd ariannol, drwy gynydd yn erbyn cynlluniau tymor canolig neu weithredol, ei fonitro drwy'r Ffurflenni Monitro Ariannol misol a gyflwynir gan holl sefydliadau'r GIG.

Cynlluniau Diswyddo Staff

Nid yw cyllideb 2016-17 yn cynnwys unrhyw ddyraniadau penodol ar gyfer cynlluniau diswyddo staff. Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed wedi rhyddhau £3.6m i'r GIG yn 2015-16 ar gyfer y Cynllun Ymadawiadau Cynnar Gwirfoddol (VERS). Yn 2014-15, gwariwyd £3.0m ar VERS o fewn y GIG.

Atal

Mae nodi'r adnoddau sy'n gysylltiedig â gwariant ataliol yn broses gymhleth a bydd casgliadau'n amrywio yn dibynnu ar y diffiniadau a'r meini prawf a ddefnyddir. Yn gyffredinol, gellir rhannu atal yn dair agwedd:

Atal sylfaenol, sy'n ceisio mynd i'r afael â chlefydau cyn iddynt ddechrau. Mae ffyrdd o helpu pobl i sicrhau iechyd da a llesiant, fel tai da, cyrhaeddiad addysgol, lleihad mewn troseddau ac ati, i gyd yn cyfrannu at atal sylfaenol. Elfen sylweddol o waith atal sylfaenol yw darparu addysg a newidiadau amgylcheddol er mwyn helpu pobl i helpu eu hunain. Fodd bynnag, mae imiwneiddio hefyd yn enghraifft o waith atal sylfaenol, ac yn enghraifft sy'n galw am ymyriad gofal iechyd.

Atal eilaidd, sy'n ceisio canfod problemau iechyd yn gynnar pan fo modd eu trin, gan ddarparu'r driniaeth angenrheidiol. Mae'r rhan fwyaf o ddulliau atal eilaidd yn cynnwys rhyw fath o ymyriad gofal iechyd, fel prawf sgrinio.

Atal trydyddol, sy'n canolbwyntio ar bobl sydd eisoes â chyflwr iechyd hirsefydlog, fel diabetes, ac sy'n gallu nodi unrhyw gymhlethdodau disgwylidiedig a'u rheoli mor effeithiol â phosibl. Mae profion sgrinio retinopatheg diabetig yn enghraifft o hyn. Gwneir cryn dipyn o waith atal trydyddol o fewn gofal sylfaenol, wrth ofalu am bobl â phroblemau iechyd cronig.

Mae angen bod yn ofalus wrth ystyried goblygiadau gwariant ataliol. Honnwyd weithiau bod dulliau atal yn gwella iechyd y cyhoedd ac yn arbed arian ar yr un pryd, ond mae cydberthynas linellol o'r fath yn annhebygol. Mae atal niwed y mae modd ei osgoi yn rhyddhau arian ar gyfer dibenion iechyd a gofal cymdeithasol eraill. Felly, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng arbedion posibl o fewn maes clefyd penodol a

lleihau cyllideb y GIG a gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Mae'r gallu i wneud arbedion mewn meysydd penodol yn bwysig ac yn werth anelu atynt hyd yn oed os yw'r effaith gyffredinol ar y gyllideb yn fwy cymhleth.

Nid yw'n bosibl bob amser i briodoli'r adnoddau sy'n gysylltiedig â gwariant ataliol i grwpiau oedran. Er enghraifft, caiff cyfran sylweddol o waith atal sylfaenol a thrydyddol ei chyflawni mewn gofal sylfaenol a chymunedol, a bydd cyfran o'r gwaith hwn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, ond bydd yn anodd cyfrifo'r lefelau gwariant fesul grwpiau unigol.

Gellir priodoli'r rhan fwyaf o wariant lechyd Cyhoeddus Cymru i waith atal. Dyrennir **£86.0m** i gyllid craidd lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyllid hwn yn galluogi lechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu ystod o wasanaethau ieuchyd cyhoeddus sy'n ymwneud â gwella a diogelu ieuchyd, felly mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i gyflawni llawer o gamau gweithredu sy'n gwella ieuchyd y cyhoedd ac yn lleihau anghydraddoldebau ieuchyd ymhlith plant a phobl ifanc. Nid yw'r dyraniad cyllidol hwn wedi'i glustnodi ar gyfer unrhyw weithgarwch penodol er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i lechyd Cyhoeddus Cymru ddefnyddio ei adnoddau er mwyn bodloni amrywiaeth eang o flaenoriaethau ac ymrwymadau.

Fformiwla dyrannu adnoddau a dosbarthu cyllid ychwanegol

Fy mwriad yw y bydd £200m o'r buddsoddiad ychwanegol yn 2016-17 yn cael ei ddyrannu i'r GIG ar sail cyfrannau poblogaeth yn bennaf. Cydnabuwyd eisoes mai'r egwyddor o ddyrannu adnoddau ychwanegol yn unol â fformiwla poblogaeth sy'n seiliedig ar anghenion yw'r egwyddor fwyaf priodol. Ar ôl adroddiad "Targeting Poor Health" yn 2001, y fformiwla poblogaeth sy'n seiliedig ar anghenion uniongyrchol, sef Fformiwla Townsend, fu'r fformiwla a ddefnyddiwyd i ddsbarthu cyllid i Fyrddau lechyd Lleol.

Sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal y dosbarthiad cyllid presennol a newid i gyfrannau yn seiliedig ar y diweddariad i fformiwla Townsend.

Yn unol â'r polisi sy'n bodoli, dim ond i ddyraniadau ychwanegol y cymhwyswyd fformiwla Townsend, nid dyraniadau craidd a ddyfarnwyd eisoes. Felly, mae dyraniadau Byrddau lechyd Lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar ddyraniad y flwyddyn gyfredol ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r dyraniad neu namyn unrhyw newidiadau i'r dyraniad. Bydd y newidiadau hyn yn cynnwys dyraniadau ychwanegol cyffredinol, a ddsberthir gan ddefnyddio fformiwla Townsend, ac unrhyw ddyraniadau ychwanegol penodol.

Gan mai dim ond i ddyraniadau ychwanegol y cymhwysir fformiwla Townsend, mae'n bwysig nodi na fabwysiadir cyfrannau fformiwla Townsend i ddsbarthu dyraniadau cyffredinol o ganlyniad i'r cyllid ychwanegol. Ni fyddai unrhyw gamau yn cael eu cymryd i fabwysiadu dyraniad targed Townsend oni bai bod y polisi yn cael ei newid er mwyn cymhwyso fformiwla Townsend i ddyraniadau sylfaenol. Ar hyn o bryd, nid oes gennyf unrhyw fwriad i gymhwyso'r fformiwla i ddyraniadau sylfaenol, gan y byddai hyn yn debygol o beri ansefydlogrwydd ariannol sylweddol yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd uwchlaw'r targed.

Trefniadau teg a thryloyw ar gyfer llifoedd ariannol rhwng sefydliadau o fewn GIG Cymru.

Er bod trefniadau sefydledig ar waith o ran llifoedd ariannol rhwng sefydliadau o fewn GIG Cymru, mae GIG Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwella a diweddarau trefniadau ar gyfer llifoedd ariannol er mwyn adlewyrchu newidiadau i fodolau gofal a'r newidiadau i drefniadau llif cleifion a fydd yn deillio o raglen De Cymru a chynlluniau ad-drefnu eraill.

Cafodd yr egwyddorion sy'n sail i'r trefniadau hyn eu hystyried gan uwch arweinwyr y GIG mewn digwyddiad Tîm Cymru ar ddechrau 2015. Yn unol â'm tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2015, mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Cydweithredol y GIG, Bob Hudson. Bydd Tîm Cymru yn cytuno unwaith eto ar ganlyniad y gwaith hwn cyn iddo gael ei weithredu o 2016-17 ymlaen.

Darpariaeth ar gyfer deddfwriaeth

Deddfwriaeth	Swm Cyllid	Cam Gweithredu
Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013	£0.6m	Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)	£4.3m	Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)	£1.5m	Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)	£0.7m	Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach
Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014	£0.025m	Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd

Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (daeth yn gwbl weithredol ar 1 Rhagfyr 2015): Yn yr Asesiad Effaith Rheoleidiol i gyd-fynd â'r Bil, amcangyfrifwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwario £0.5 miliwn yn 2016-17. Bydd y gwariant hwn yn cwmpasu gweithgarwch cyfathrebu (gan gynnwys cyfathrebu â phobl ifanc 17 oed); gwaith sydd ar ôl i'w wneud mewn perthynas ag ailddatblygu'r Gofrestr Rhoddwyr Organau; prosesu cofrestriadau ychwanegol, a darnau amrywiol o waith gwerthuso sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth newydd. Diwygiwyd y gyllideb i £0.6 miliwn ar ôl ailbroffilio rhai elfennau o'r gyllideb o'r ddwy flwyddyn flaenorol mewn perthynas â gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau a'r rhaglen ymchwil.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen i greu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i'r dyfodol. Daw'r Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016 ac mae ein rhaglen weithredu yn cefnogi'r newidiadau y bydd y Ddeddf yn eu rhoi ar waith. Gwyddom mai'r flaenoriaeth i wasanaethau cymdeithasol yw trawsnewid, a hynny drwy'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan bobl lais cryfach a mwy o reolaeth

dros y gwasanaethau a gânt, canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a datblygu llawer mwy o bwyslais ar integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mewn meysydd critigol. Disgwyliwn y bydd y Ddeddf, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil, yn niwtral o ran referniw yn y tymor hwy.

Mae dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Ddeddf wedi'i gynnwys yn yr asesiadau effaith rheoleiddiol a gyhoeddwyd fel rhan o'r memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau a osodwyd. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi darlun cliriach o'r costau a'r buddiannau unigol cyfyngedig sy'n deillio neu yr eir iddynt o ganlyniad i'r newidiadau sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Dylid ystyried hyn yng nghyd-destun ehangach system a ddatblygwyd i fod yn niwtral o ran referniw drwy symud ffocws a baich costau tuag at gefnogi llesiant, ymyriadau cynharach a llais dinasyddion ac oddi wrth ymyriadau hwyr, dwys, ymwithiol a chostus. Cefnogwyd y newid mawr hwn gan dair blynedd o gyllid pontio i lywodraeth leol a'i phartneriaid er mwyn eu helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â newid i ffordd newydd o weithio.

Mae holl linellau'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u targedu at gyflawni'r agenda ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy y mae'r Ddeddf yn sail iddi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid i'r system newydd ac yn darparu cymorth pontio er mwyn paratoi ar gyfer y Ddeddf a ddaw yn weithredol ar 6 Ebrill 2016. Yn 2016-17, bydd £4.3m ar gael er mwyn helpu i gyflawni'r newid.

Yn 2016-17, bydd Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn darparu £7.2m o gyllid Llywodraeth Cymru i'w fuddsoddi mewn hyfforddiant i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a fydd yn canolbwyntio ar eu galluogi i atgyfnerthu eu hymarfer a rhoi'r Ddeddf newydd ar waith. Darperir y rhan fwyaf o'r cyllid grant hwn yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Darperir £1.1m arall o'r grant i Gyngor Gofal Cymru er mwyn ariannu hyfforddiant ar weithredu'r Ddeddf. Mae cynllun grantiau'r trydydd sector yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Ddeddf a bydd yn galluogi sefydliadau yn y trydydd sector i ddarparu ymyriadau cynnar a gwasanaethau ataliol mwy arloesol er mwyn helpu i roi egwyddorion y Ddeddf ar waith yn llawn.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Ddeddf, amcangyfrifwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwario **£1.5m** yn 2016-17. Bydd y gwariant hwn yn talu costau amcangyfrifedig y broses o newid o'r system reoleiddio bresennol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 i'r system newydd a sefydlir o dan y Ddeddf. Mae'r gofyniad cyffredinol hwn ar gyfer 2016-17 yn debygol o leihau o ganlyniad i drafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng cyrff rheoleiddio a Gweinidogion, a gwaith ailbroffilio dros amserlen hwy.

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil, amcangyfrifwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwario **£0.7m** yn 2016-17. Mae hyn yn cynnwys costau staff sy'n gyfrifol am ddatblygu rheoliadau, ynghyd â chostau gweithredu eraill.

Dyluniwyd y Bil gan geisio lleihau unrhyw feichiau ariannol newydd i'r eithaf, yn enwedig i'r sector llywodraeth leol. Yn ystod y broses graffu, pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid y rôl hanfodol sydd gan lywodraeth leol i'w chwarae wrth weithredu'r Bil a'r angen am ddigon o adnoddau i'w helpu i wneud hynny. Gan gydnabod hyn, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried a fyddai'n bosibl darparu cymorth ychwanegol i'r sector i'w helpu yn ystod y camau gweithredu cynnar.

Gall y costau hyn newid wrth i'r Cynulliad graffu ar y Bil. Disgwylir hefyd y gallai'r costau hyn leihau wrth i agweddau ar y broses weithredu gael eu cydgysylltu ar draws elfennau amrywiol y Bil.

Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2004

Yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol amcangyfrifwyd mai £0.1m fyddai cyfanswm cost Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi gwario llai na hyn. Er enghraifft, amcangyfrifwyd gennym y byddem yn gwario £0.062m ar waith craffu allanol ar gyfer cylch cynllunio 2014-15. Dim ond £0.025m a wariwyd gennym yn y pen draw. Hefyd, ar gyfer yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifodd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai'r ffioedd am archwilio cyfrifon blynyddol Byrddau Iechyd Lleol yn cynyddu £0.119m y flwyddyn o ganlyniad i'r Ddeddf. Ar gyfer blwyddyn gyntaf y ddyletswydd tair blynedd newydd, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi amcangyfrif y byddai'r costau yn cyfateb i tua £0.025m a nododd y bydd costau yn cynyddu, hyd at y costau a amcangyfrifwyd yn wreiddiol o bosibl, i adlewyrchu'r gwaith a fydd ei angen ar ddiwedd y cyfnod cyntaf o dair blynedd.

Mae'r Ddeddf hon wedi bod ar waith ers deunaw mis bellach, ac nid oes unrhyw fwrdd iechyd wedi cwblhau cylch tair blynedd eto, felly nid yw'r costau terfynol ar gael eto. Mae'r costau uchod yn cyfeirio at y costau hyd yma.

Deddfwriaeth Llywodraeth y DU

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro deddfwriaeth y DU ac yn gweithio gyda swyddogion yn Whitehall ar y saith Bil sydd gerbron Senedd y DU a'r 26 o Ffiliau Aelodau Preifat y bernir y gallent effeithio ar bolisi ym maes lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, sef:

- Bil Cymru Arfaethedig
- Y Bil Menter
- Y Bil Mewnfudo
- Y Bil Plismona a Chyfiawnder Troseddol
- Y Bil Sylweddau Seicoweithredol
- Bil Aelodau Preifat ar Fynediad i Driniaethau Meddygol (arloesedd)
- Bil Aelodau Preifat ar y GIG (Ymddiriedolaethau Elusennol ac ati)

Hyd nes bod y darpariaethau terfynol hynny yn y Biliau hyn sy'n effeithio ar Gymru yn hysbys, ni ellir nodi unrhyw oblygiadau ariannol pendant. Y prif nod yw sicrhau nad yw deddfwriaeth y DU yn cael effaith andwyol ar Gymru na Gweinidogion Cymru a'n bod yn manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth i Gymru.

Cyllid cyfalaf

Mae Rhaglen Gyfalaf y GIG yn cefnogi'r amcanion buddsoddi allweddol o foderneiddio ac adnewyddu asedau ac ystad y GIG, yn ogystal â thrawsnewid y

ddarpariaeth gofal iechyd. Mae'r Flaenraglen Gyfalaf yn gydnaws â'r amcanion hyn ac yn cynnwys cynlluniau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig sefydliadau'r GIG. Mae'n rhaid i gynigion am brosiectau unigol ddangos tystiolaeth eu bod yn bodloni pum maen prawf buddsoddi allweddol, gan gynnwys cynnydd mewn iechyd, cynaliadwyedd clinigol a chynaliadwyedd sgiliau, tegwch, fforddiadwyedd a gwerth am arian.

Caiff y Rhaglen ei diweddarau'n flynyddol bellach. Bydd gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf i adnewyddu'r Rhaglen er mwyn ystyried y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig diweddaraf a gyflwynir ym mis Ionawr 2016.

Dyraniad cyfalaf diwygiedig y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17 yw £253m, sy'n cynnwys cyllid ychwanegol o £33.4m. Mae hyn yn gynnydd o £18m o gymharu â dyraniad cyllideb 2015-16. Er gwaethaf cynnydd araf mewn arian parod yn yr Adolygiad o Wariant, mewn termau real bydd y cyfalaf cyhoeddus sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi cael ei dorri 30% erbyn 2019-20 o gymharu â'i lefel frig yn 2009-10.

Mae'r tabl yn Atodiad Ch yn rhoi manylion y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo o fewn GIG Cymru.

O ran modelau cyllido arloesol, ar ôl i'r Rhaglen Amlinellol Strategol gael ei chymeradwyo ym mis Ionawr 2015, parheir i wneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol dros ysbty canser newydd yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Caiff y prosiect hwn ei ddatblygu gan ddefnyddio'r Model Nad yw'n Dosbarthu Elw a dyma fydd y cynllun cyntaf i ddefnyddio'r model cyllido hwn yng Nghymru. O dan yr amserlen bresennol, caiff yr Achos Busnes Amlinellol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ei ystyried ym mis Gorffennaf 2016. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y gwaith caffael yn dechrau yn ystod hydref 2016 a bydd yr ysbty newydd yn agor yn 2021-22.

Mae modelau cyllido eraill yn cael eu hystyried mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyfarpar meddygol a mentrau ynni-ffeithlon/carbon isel. O ran gofal sylfaenol a chymunedol, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi datblygiadau â blaenoriaeth posibl ledled Cymru. Bydd y llif prosiectau newydd hwn yn dylanwadu ar y modelau cyllido y gellir eu defnyddio, ond bydd yn cynnwys cyfleoedd i gydweithio mwy gyda llywodraeth leol a'r trydydd sector, yn ogystal â chyllid Ewropeaidd.

Y broses o groesgyfeirio'r gyllideb

Nodwyd y prosesau a roddwyd ar waith mewn perthynas â'r dyraniadau cyffredinol i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn yr Aseiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd gyda dogfennaeth y Gyllideb Ddrafft ar 8 Rhagfyr. Ceir mwy o wybodaeth am yr effaith yn yr Aseiad Effaith Integredig yn Atodiad C.

Cronfa Risg Cymru

Amcangyfrifir mai £665.1m yw darpariaeth gyfrifyddu bresennol Cronfa Risg Cymru ym mis Tachwedd 2015, sy'n ostyngiad o £9m. Mae Cronfa Risg Cymru wedi gwneud £24.3m o daliadau yn 2015-16. Fel sy'n arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn ariannol, mae nifer o hawliadau yn yr arfaeth ar hyn o bryd a chânt eu hasesu ymhellach tua diwedd y flwyddyn er mwyn pennu a fydd angen darpariaeth

gyfrifyddu. Yn unol â hyn, amcangyfrifir y bydd darpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cyfateb i £700m i £725m.

Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth Cronfa Risg Cymru yn ymwneud â hawliadau ynghylch Esgeulustod Clinigol. Mae'r GIG yng Nghymru wedi gweld cynnydd yn nifer yr hawliadau newydd a wneir ynghylch esgeulustod clinigol dros y blynyddoedd diwethaf a thwf yn y costau a'r iawndal sy'n gysylltiedig â'r hawliadau hyn. Gwelwyd yr un cynnydd yn y GIG yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid dim ond yng Nghymru.

Credir bod y cynnydd diweddar yng Nghymru a Lloegr wedi deillio'n rhannol o'r newidiadau i'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013. Mae'r ddeddfwriaeth wedi diwygio'r trefniadau cyllido ar gyfer ymgyfreitha sifil, gan gynnwys y trefniadau "dim llwyddiant, dim ffi" a oedd yn galluogi cyfreithwyr yr hawlwr i godi ffioedd llwyddiant o 100% ar eu costau. Ymhlith y ffactorau eraill a nodwyd ledled y DU a allai ysgogi'r cynnydd, mae cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu trin, y ffaith bod cymdeithas yn fwy parod i ymgyfreitha, cynnydd yng ngwerth yr hawliadau, a thuedd newydd lle gwelir costau sylweddol yn gysylltiedig â hawliadau gwerth is.

Ni all Llywodraeth Cymru effeithio ar lefel yr iawndal a delir i hawlwr cymwys, gan mai'r llysoedd sy'n pennu'r lefelau hyn. O safbwynt costau hawliadau, mae'r llysoedd wedi cyflwyno proses cyllidebu costau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy ochr gyflwyno amcangyfrifon o'u costau dros oes yr hawliad a chytuno arnynt, mewn ymgais i leihau costau anghymesur. Ond nid oes tystiolaeth ar gael eto o'r effaith a gaiff y broses hon ar gostau hawliadau. Cyhoeddodd yr Adran Iechyd yn Lloegr yn 2015 ei bod yn bwriadu mynd i'r afael â hawliadau cyfreithiol anghymesur ar gyfer achosion esgeulustod clinigol gwerth is. Mae Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu â'r Adran Iechyd ar y cynnig polisi hwn.

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP), ar ran cyrff GIG Cymru, wedi mabwysiadu system gadarn ond teg i sicrhau bod hawliadau annheilwng a ddaw i law yn cael eu hamddiffyn yn briodol a'u cwblhau heb dalu iawndal. Mae trefniadau rheoli rhagweithiol a chadarn y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn sicrhau y caiff hawliadau eu setlo mewn ffordd deg a chyfartal.

Ar ôl cyflwyno Gweithio i Wella yn 2011, mae gan GIG Cymru weithdrefn gwyno symlach sy'n fwy ymatebol a chynhwysfawr ac sy'n caniatáu i gorff iechyd gynnog gwneud iawn am niwed sydd wedi digwydd o ganlyniad i driniaeth.

Nid drwy reoli costau yn unig mae lleihau'r costau sy'n gysylltiedig ag esgeulustod clinigol, bydd gwelliannau i ofal cleifion drwy leihau nifer yr achosion o esgeulustod clinigol a niwed yn lleihau nifer yr hawliadau cymwys a gaiff eu setlo. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Sicrwydd Ansawdd a Diogelwch mewnol sy'n monitro ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd drwy gynnal adolygiadau rheolaidd o ddangosyddion allweddol amrywiol a materion sy'n dod i'r amlwg a all beri gofid neu feysydd lle na welwyd digon o gynnydd i gyflwyno gwelliannau y cytunwyd arnynt. Mae'r Grŵp yn sicrhau y cymerir camau gweithredu lle bo angen

gwella, gan gytuno ar gamau uwchgyfeirio ac ymyrryd priodol a monitro ac adolygu achosion fel y bo angen hyd nes bod y gwelliannau gofynnol wedi'u cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu fforwm Diogelwch ac Ansawdd Cenedlaethol sy'n dwyn uwch arweinwyr GIG Cymru ynghyd i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu am ansawdd a diogelwch. Y nod yw hyrwyddo a gwella ansawdd a diogelwch yn genedlaethol ac yn lleol.

Mae'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu yn ei gwneud yn bosibl i anfon adroddiadau ar achosion diogelwch cleifion i gronfa ddata genedlaethol lle mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG yng Nghymru gofnodi pob achos sy'n ymwneud â diogelwch cleifion. Yn flaenorol, câi'r wybodaeth am risgiau a nodwyd drwy'r System ei dosbarthu drwy amrywiol dulliau a gafodd eu datblygu a'u rhoi ar waith gan yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion cyn mis Mehefin 2012. Roedd hyn yn cynnwys Rhybuddion Diogelwch Cleifion, Hysbysiadau Diogelwch Cleifion ac Adroddiadau Ymateb Cyflym. Ar ôl i'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion gael ei diddymu, Llywodraeth Cymru sydd bellach yn arwain y gwaith hanfodol hwn i nodi unrhyw risgiau a phryderon diogelwch arwyddocaol a datblygu Datrysiaidau Diogelwch Cleifion cenedlaethol i'w cyflwyno i'r GIG yng Nghymru er mwyn gwella diogelwch cleifion.

Caiff yr holl hawliadau am ad-daliadau a gaiff Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru NWSSP eu hadolygu er mwyn sicrhau y cymerwyd camau cymesur i leihau'r risg y byddant yn digwydd eto. Caiff hawliadau eu hystyried hefyd gan Bwyllgor Cronfa Risg Cymru, sef grŵp amlddisgyblaeth o swyddogion gweithredol o bob rhan o Gymru, er mwyn ystyried ymhellach y camau sydd eu hangen i rannu gwersi a ddysgwyd neu wneud cais am adolygiad o hawliadau.

O ganlyniad i adolygiad Evans, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol i hwyluso nifer o ffrydiau gwaith er mwyn gwella ac atgyfnerthu trefniadau Gweithio i Wella. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

- gweithio i gaffael system rheoli risg genedlaethol er mwyn safoni dulliau casglu data a gwybodaeth ledled GIG Cymru. Bydd hyn yn gwneud y data yn fwy cyson ac yn ei gwneud yn bosibl i nodi themâu a thueddiadau cenedlaethol, a gall hefyd arwain at lai o achosion dyblyg. Bydd system o'r fath yn rhan greiddiol o'r ymdrech i wella diogelwch cleifion drwy gynhyrchu metrigau yn ogystal â rhybuddion.
- cydweithio â'r GIG i sicrhau bod ganddo'r strwythurau priodol, gan ddwyn profiadau a phryderon cleifion ynghyd er mwyn nodi gwersi, dysgu a gwneud gwelliannau yn sgil cwynion.
- mae Llywodraeth Cymru yn symleiddio Arweiniad Gweithio i Wella er mwyn annog sefydliadau i ddefnyddio'r broses gwneud iawn. Mae'r broses hon yn darparu ymddiheuriad a gonestrwydd ond mae hefyd yn nodi gwersi i'w dysgu pan fo pethau'n mynd o chwith fel y gall sefydliadau wella eu gwasanaethau.

Y diweddaraf ar Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu

Yn ôl yn 2011, gwnaethom gyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu fwyaf uchelgeisiol a chynhwysfawr ers datganoli, sydd bellach yn cynnwys 547 o ymrwymadau

gwahanol yn ymdrin â'r holl wasanaethau amrywiol rydym yn gyfrifol amdanynt. Gwnaethom hynny gan wybod bod y rhagolygon ar gyfer arian cyhoeddus yn heriol.

Mae delio â chaledi wedi bod yn brawf mawr i Lywodraeth Cymru a'r broses ddatganol yn gyffredinol, ond rydym wedi llwyddo drwy barhau i ganolbwyntio'n gadarn ar gyflawni a chefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym wedi gwneud hynny drwy bennu pedair blaenoriaeth gyffredinol ar ran pobl Cymru, ym maes iechyd a gwasanaethau iechyd, cyrhaeddiad addysgol, twf a swyddi, a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Yn achos pob un o'r blaenoriaethau allweddol hyn, rydym wedi targedu ein hadnoddau er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Fel Llywodraeth, rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i'r egwyddor o dryloywder, fel y gellir barnu'r Llywodraeth hon ar ei chyflawniadau. Ers 2011, rydym wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddarparu cofnod tryloyw o'r hyn sy'n cael ei wneud a'i gyflawni yn erbyn ein 547 o ymrwymadau a fesurir drwy gyfrwng 336 o ddangosyddion perfformiad a chanlyniadau.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol terfynol ar y Rhaglen Lywodraethu ym mis Mehefin 2015 a ddangosodd fod mwy na 95 y cant o'n hymrwymadau naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir i'w cyflawni.

Mynediad i feddygon teulu

Mae Meddygon Teulu yn gwneud meddygfeydd yn fwy hygyrch i bobl sy'n gweithio yn seiliedig ar angen. Gwelwyd tuedd am i fyny yn yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd ar fynediad i feddygon teulu yn 2014. Mae 80% o bractisau meddygon teulu yng Nghymru bellach ar agor rhwng yr oriau craidd dyddiol (neu o fewn awr i'r oriau craidd dyddiol), o gymharu â 76% yn 2013 ac mae 79% o bractisau bellach yn cynnig apwyntiadau unrhyw bryd rhwng 5pm a 6.30pm bob nos yn ystod yr wythnos, o gymharu â 76% yn 2013.

Mae gwasanaeth canolog gwell ar waith i gyllido apwyntiadau ar ôl 6.30pm. Yn 2014, roedd 7% o bractisau yn cynnig apwyntiadau ar ôl 6.30pm o leiaf un diwrnod yr wythnos. Mae byrddau iechyd wedi rhoi sicrwydd bod mynediad i wasanaethau ar ôl 6.30pm yn adlewyrchu angen rhesymol ymhlith cleifion. Lle aseswyd bod angen rhesymol ymhlith cleifion am well mynediad i feddygon teulu ar ôl 6.30pm ac ar fore Sadwrn, disgwylir y bydd trefniadau mynediad yn cael eu gwneud. Rhagwelir y bydd y trefniadau i wella mynediad i wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ar benwythnosau yn cael eu rhoi ar waith gan grwpiau o bractisau meddygon teulu a fydd yn cydweithio â'i gilydd, drwy glystyrau gofal sylfaenol, gan gynnwys y posibilrwydd o wasanaethau bore Sadwrn.

Fel rhan o'r newidiadau y cytunwyd arnynt i'r contract meddygon teulu ar gyfer 2015-16, mae GPC Cymru, Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi ymrwymo i nodi ffyrdd o wella mynediad i wasanaethau meddygon teulu, yn enwedig gwella profiadau cleifion a phrofiadau cleifion ar y cam cyswllt cyntaf. Er mwyn hwyluso pethau i bobl, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno gofyniad cytundebol i'r holl bractisau meddygon teulu gynnig mwy o apwyntiadau ar-lein gan ddefnyddio *Fy Iechyd Ar-lein*. Bydd pob practis yng Nghymru yn gallu cynnig *Fy Iechyd Ar-lein*, ac mae 60% ohonynt yn defnyddio gwasanaethau *Fy Iechyd Ar-lein* ar hyn o bryd. Mae camau

penodol ar waith i gynyddu'r nifer sy'n defnyddio Fy lechyd Ar-lein - er enghraifft, erbyn mis Ionawr 2016, system ar-lein symlach i gofrestru ar gyfer Fy lechyd Ar-lein heb fod angen mynd i'r feddygfa i gofrestru'n bersonol; ap i'w ddefnyddio ar Ffonau Deallus; cymorth rheng flaen i gleifion drwy Galw lechyd Cymru; ail-lansio Fy lechyd Ar-lein drwy ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus / cyhoeddusurwydd.

Y Cynllun Mân Anhwylderau

Cyflwynwyd gwasanaeth Dewis Fferyllfa (mân anhwylderau) mewn 32 o fferyllfeydd mewn dau safle braenaru ym Mwrdd lechyd Cwm Taf a Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Medi 2013. Sefydlwyd y safleoedd braenaru er mwyn profi'r model gwasanaeth. Yn benodol, byddai'r safleoedd braenaru yn profi p'un y gellid trosglwyddo'r gwaith o reoli mân anhwylderau o feddygon teulu i fferyllfeydd cymunedol ac os felly, i ba raddau y gellid gwneud hynny. Byddai unrhyw benderfyniad i gyflwyno'r gwasanaeth yn genedlaethol yn dibynnu ar p'un a fyddai modd dangos bod Dewis Fferyllfa yn ateb amgen gwirioneddol i'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli mân anhwylderau cyffredin.

Canfu gwerthusiad annibynnol o wasanaeth Dewis Fferyllfa ei fod wedi'i gynllunio a'i weithredu'n dda, a'i fod yn debygol ei fod yn cyflawni ei brif amcan, sef lleihau'r galw am apwyntiadau â meddygon teulu a'r presgripsiynau cysylltiedig am feddyginiaethau ar gyfer mân anhwylderau. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau'n amwys a gwelwyd amrywiadau mawr mewn gweithgarwch rhwng fferyllfeydd. Ni thynnodd y gwerthusiad sylw at unrhyw arbedion mawr a fyddai'n rhyddhau arian. Nodwyd bod sawl amod y mae angen eu bodloni er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael eu budd mwyaf, gan gynnwys: cydberthnasau gwaith da a sefydledig rhwng meddygon teulu a fferyllfeydd; cymorth gan feddygon teulu i hyrwyddo'r gwasanaeth; a dealltwriaeth dda o'r gwasanaeth ymhlith meddygon teulu a thimau practisau.

Daw'r safleoedd braenaru i ben ym mis Mawrth 2016 a chaiff penderfyniad ynghylch trefniadau Dewis Fferyllfa yn y dyfodol ei wneud yn y cyfamser.

Ychwanegu at Fywyd

Archwiliad iechyd a lles i bobl 50 oed neu drosodd yw Ychwanegu at Fywyd, a chafodd ei gyflwyno'n genedlaethol ym mis Ebrill 2014. Mae'n hunanasesiad cyfrinachol a hawdd ei ddefnyddio y gellir ei gyflawni ar-lein neu dros y ffôn gyda chymorth Galw lechyd Cymru. Mae Ychwanegu at Fywyd yn rhoi cyfle i bobl 50 oed neu drosodd gael darlun cyffredinol o'u hiechyd, ac mae'n eu helpu i wella eu hiechyd a'u lles mewn camau bach, realistig, yn ogystal â gwella mynediad i'r gwasanaethau atal mwyaf effeithiol.

Ers i Ychwanegu at Fywyd gael ei gyflwyno'n genedlaethol, mae dros 23,000 o bobl wedi ymweld â'r wefan ac mae bron 12,000 wedi cwblhau asesiadau iechyd a lles.

Lansiwyd y fersiwn ddiweddaraf o Ychwanegu at Fywyd ar 22 Ebrill 2015 ac mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gyflwyno a datblygu'r asesiad mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr.

Gwasanaeth 111 GIG Cymru

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar lwyddiant Galw lechyd Cymru a chynnig un rhif sydd ar gael drwy'r dydd, bob dydd, y gall cleifion ei ddefnyddio i gael gfael ar ofal

iechyd nad yw'n argyfwng yng Nghymru. Agwedd bwysig ar hyn fydd integreiddio galwadau lleol a wneir y tu allan i oriau. Gwneir hyn drwy gyflwyno gwasanaeth y gall pobl ei ddefnyddio drwy'r rhif rhad 111 y mae Ofcom wedi'i ddyrannu ar gyfer anghenion gofal iechyd brys (ond nad ydynt yn argyfyngus). Caiff gwasanaeth braenaru ar gyfer rhif 111 y GIG ei gyflwyno flwyddyn nesaf, gan gyfuno'r system bresennol ar gyfer ateb galwadau ffôn y tu allan i oriau a brysennu [cychwynnol](#) a'r gwasanaethau a ddarperir gan Galw Iechyd Cymru yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Drwy hyn, bydd modd profi'r gwasanaeth yn drylwyr yn barod i'w gyflwyno ledled Cymru yn y dyfodol a bydd modd mireinio'r costau manwl ar yr un pryd.

Gofal Lliniarol

Lansiwyd Law yn Llaw at Iechyd - Darparu Gofal Diwedd Oes ar 18 Ebrill 2013. Mae'r cynllun yn nodi ein disgwyliadau i GIG Cymru weithio gyda phartneriaid, yn enwedig y sector hosbisau a gofal cymdeithasol, er mwyn lleihau anghydraddoldebau o ran gofal diwedd oes.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £6.4m bob blwyddyn i fyrddau iechyd a hosbisau ar gyfer gofal diwedd oes yng Nghymru. Ym mis Ionawr eleni, cyhoeddwyd £1m ychwanegol i hwyluso blaenoriaethau'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes. Caiff y rhan fwyaf o'r buddsoddiad newydd hwn ei ddefnyddio i ehangu'r ddarpariaeth hosbis yn y cartref ledled Cymru, a defnyddir y gweddill i gefnogi mentrau gofal diwedd oes. Cymru yw'r unig wlad yn y DU lle mae cyngor arbenigol ar ofal lliniarol ar gael drwy'r dydd, bob dydd, i weithwyr proffesiynol sy'n gofalu am gleifion yn eu cartrefi, mewn hosbisau ac ysbytai. Mae nyrsys gofal lliniarol arbenigol ar gael saith diwrnod yr wythnos ledled Cymru hefyd. Un o'r prif bethau y mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes yn canolbwyntio arno yw annog unigolion i drafod trefniadau diwedd oes gyda'u teuluoedd a'u cynhalwyr er mwyn sicrhau bod eu gofal yn cael ei gynllunio'n effeithiol. Cynhaliwyd dwy gynhadledd ym mis Mai 2014 er mwyn ysgogi sgwrs genedlaethol am ddiwedd oes. Y llynedd, lansiwyd 'Byw Nawr', sef ymgyrch gyhoeddus i hyrwyddo, annog a chefnogi sgysiau am ddiwedd oes.

Gofal y llygaid

Rydym yn parhau i adeiladu ar bolisi sydd wedi bod ar waith ers 2001. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, datblygwyd y gwasanaeth cenedlaethol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, er mwyn galluogi optometryddion i gynnal archwiliadau iechyd llygaid mewn gofal sylfaenol a lleihau'r problemau o ran capasiti a galw sy'n wynebu gwasanaethau llygaid gofal eilaidd yn yr ysbyty. Gan adeiladu ar y datblygiad polisi hwn, darparodd y Gronfa Technoleg Iechyd a Telefeddygaeth £1.0m i wella systemau cyfathrebu a chyflymu trefniadau atgyfeirio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd a'i gwneud yn bosibl i ryddhau mwy o bobl i'r gymuned yn ddiogel. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo.

Sefydlu Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig mewn lleoliadau allweddol ledled Cymru er mwyn cyflymu a gwella gofal y llygaid.

Cadarnhaodd archwiliadau'r Uned Gyflawni yn 2015 bod canolfannau ar gael ym mhob bwrdd iechyd i ateb y problemau o ran capasiti a galw mewn gofal eilaidd. Ategir y gwaith hwn gan y Ffocws ar Lwybrau Gofal Cleifion Offthalmoleg.

Disgwyl i fyrddau iechyd fonitro gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n gysylltiedig â Henaint yn eu hardal leol er mwyn sicrhau y darperir triniaeth yn briodol yn unol â phrotocol Cymru gyfan.

Mae hyn yn aildatgan polisi sydd eisoes wedi bod ar waith ers 2008 ac yn cyd-fynd ag argymhellion NICE. Mae byrddau iechyd yn parhau i wneud newidiadau er mwyn datblygu capasiti ac i gefnogi'r gwaith hwn, darparwyd £0.5m i sefydlu pedwar peilot i ddarparu gwasanaethau o fewn gofal sylfaenol er mwyn gwella profiadau cleifion yn unol ag egwyddorion allweddol gofal iechyd darbodus a'r argymhellion a nodir yn Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Iechyd Llygaid 2013-18.

Ei gwneud yn ofynnol i Wasanaeth Golwg Gwan Cymru ddarparu gwell gwasanaethau ar gyfer golwg gwan ledled Cymru er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob claf.

Cadarnhaodd yr archwiliad diweddaraf o'r Gwasanaeth, a gynhelir bob tair blynedd, bod y gwasanaeth ar gael ym mhob bwrdd iechyd er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bob claf. Mae gwasanaeth cenedlaethol ar gael, a weinyddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar ran yr holl fyrddau iechyd, i alluogi optometryddion i asesu golwg gwan, presgripsiynu, archebu a chyflenwi cymhorthion golwg gwan i gleifion, na ellir rhoi rhagor o driniaeth iddynt.

Cynllun Gwên

Bydd rhaglen 'Cynllun Gwên' yn parhau i gael buddsoddiad o £3.7m yn 2016-17. Mae'r cyllid hwn wedi'i gynnwys o fewn y dyraniad deintyddol rheolaidd sydd wedi'i glustnodi o dan y Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod gwaith dadansoddi data cynnar yn awgrymu bod pydredd dannedd ymhlith plant cyffredin sy'n mynychu'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn gwella. Bydd yr Arolwg Epidemiolog Deintyddol o blant pum mlwydd oed yn 2015-16 yn rhoi darlun cliriach o effaith y rhaglen.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno ein polisi drwy ddechrau gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu o £62m yn 2015-16 i £68m yn 2016-17. Mae'r elfen ychwanegol yn ymwneud ag effaith y mewndrosglwyddiad o'r Gronfa Byw'n Annibynnol drwy gydol y flwyddyn. Mae £21m ychwanegol ar gael i wasanaethau cymdeithasol yn y Gyllideb Ddrafft hefyd, a darperir yn uniongyrchol i awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth newydd. Bydd y cyllid hwn a'r cyllid rydym wedi'i roi i awdurdodau lleol a'u partneriaid i'w helpu i newid i'r trefniadau newydd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn galluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i fod yn hyderus yn eu gallu i weithio mewn ffyrdd newydd a rhoi trefniadau integredig newydd ar waith. Bydd grant y trydydd sector yn helpu i weithredu egwyddorion a pholisi'r Ddeddf.

Yng Nghyllideb Ddrafft y llynedd, dyrannodd Llywodraeth y DU £27m ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Byw'n Annibynnol. Fel rhan o raglen Diwygio Lles Llywodraeth y DU, trefnwyd y byddai'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn cau ar 31 Mawrth 2015, gyda'r cyfrifoldeb am redeg y gronfa yn cael ei ddatganoli. Yn ystod 2014-15, gohiriwyd dyddiad cau'r Gronfa tan 30 Mehefin 2015, felly cafwyd

trosglwyddiad llai gan Drysorlys EM a oedd yn cyfateb i naw mis o gyllid ar gyfer 2015-16. Mae'r cynnydd mewn cyllid yn 2016-17 yn golygu bod y gyllideb wedi tyfu eto i'r dyraniad gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn gyfan, sef £27m.

ATODIAD A i Bapur y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Crynodeb o Newidiadau i 'Linellau cyllidebol Camau Gweithredu' yn 2016-17 o gymharu â Llinellau Sylfaenol diwygiedig ar gyfer 2015-16.

1. Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd

Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd yw'r Cam Gweithredu mwyaf o bell ffordd yn y MEG, gyda chyllideb refeniw flynyddol o £6 biliwn. Y cam gweithredu hwn sy'n darparu'r prif gyllid ar gyfer gofal y GIG (ysbytai a gwasanaethau cymunedol). Dyrennir y cyllid hwn i fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'n cynnwys cyllid i ofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr). Mae **cynnydd net** o **£258.926** miliwn i'r cam gweithredu hwn o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£0.363 million** o'r Cam Gweithredu Cymorth Hosbisau i mewn i ddyraniad refeniw'r Byrddau Iechyd mewn perthynas â chyllid sy'n trosglwyddo o Ymddiriedolaeth Felindre i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan o ganlyniad i gostau meddygon ymgynghorol sy'n trosglwyddo o dan drefniadau TUPE.
- **£0.015 miliwn** o'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â chyllid ar gyfer Ymgynghorwyr Deintyddol i mewn i Ddyraniad y Contract Deintyddol.
- **£(0.542) miliwn** i mewn i'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â chyllid dyfarniadau cyflog ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£(0.503) miliwn** i mewn i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chyllid dyfarniadau cyflog ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
- **£(0.187) miliwn** i mewn i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â chyllid dyfarniadau cyflog ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- **£(0.118) miliwn** i mewn i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **£(0.062) miliwn** i mewn i'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â Gwasanaethau Sgrinio Retinopatheg Diabetig i Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£(0.040) miliwn** i mewn i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu er mwyn cwmpasu cyllideb Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn perthynas â chostau a fydd yn gysylltiedig â chontract y Cofnod Staff Electronig yn y dyfodol

Dyraniadau Ychwanegol

- **£200.0 miliwn** o fuddsoddiad ychwanegol yn unol â blaenoriaeth adolygiad o wariant Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru
- **£30.0 miliwn** i gynyddu'r Gronfa Gofal Canolraddol i £50.0 miliwn
- **£30.0 miliwn** i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn ac ieuchyd meddwl

2. Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol penodol (gan gynnwys Mentrau Gofal y Llygaid), yn ogystal â chyllid ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau eraill gan gynnwys: cyflenwi datrysiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i'r GIG yng Nghymru a chymorth ar gyfer Addysg Feddygol i israddedigion. Y **gostyngiad net** i'r Cam Gweithredu hwn yw **£ (14.075) miliwn** yn 2016-17. Mae'r gostyngiad hwn fel a ganlyn:

Trosglwyddiadau rhwng Camau Gweithredu:

- **0.503 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â chyllid dyfarniadau cyflog ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **£0.118 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **£0.187 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â chyllid dyfarniadau cyflog ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- **£0.101 miliwn** o Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn perthynas ag adnoddau ychwanegol i gefnogi'r trefniant newydd ar gyfer y Tîm Meddygon Teulu Dan Hyfforddiant
- **£0.075 miliwn** o Gam Gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad i drosglwyddiad ariannol, i gyllideb graidd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, er mwyn parhau i gefnogi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
- **£(0.195) miliwn** o'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus mewn perthynas â throsglwyddo ystad y GIG o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£(0.040) miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd er mwyn cwmpasu cyllideb Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn perthynas â chostau sy'n ymwneud â chontract y Cofnod Staff Electronig

MEG i MEG

- **£(15.903) miliwn** i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas ag ad-daliadau Buddsoddi i Arbed
- **£ 1.179 miliwn** o'r MEG Gwasanaethau Canolog mewn perthynas â Chynlluniau Buddsoddi i Arbed
- **£(0.180) miliwn** i'r MEG Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid y cytunwyd arno ar gyfer Arolygiaethau Iechyd Cymru

3. Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant mewn swydd er mwyn datblygu gweithlu'r GIG. Mae gostyngiad o **£(0.101) miliwn** i'r cam gweithredu hwn.

- **£0.101 miliwn** i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas ag adnoddau ychwanegol i gefnogi trefniant newydd y Tîm Meddygon Teulu dan Hyfforddiant o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

4. Cefnogi Polisiâu a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

Caiff y cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ei ddarparu drwy'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd. Yn ogystal, mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid dynodedig i ddatblygu a gwella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn yng Nghymru yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl, y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol a deddfwriaeth. Mae'n darparu cymorth, er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau dementia, anhwylderau bwyta a'r Gwasanaeth Cyn-Filwyr ledled Cymru. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn.

5. Cymorth Hosbis

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer pob menter gofal lliniarol genedlaethol ac mae hefyd yn darparu cyllid rheolaidd ar gyfer hosbisau gwirfoddol. Ceir **gostyngiad net** o £(0.363) miliwn i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17 o ganlyniad i drosglwyddiad cyllid i ddyraniad refeniw'r Byrddau Iechyd.

6. Cyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer y Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau a rhaglenni cysylltiedig er mwyn atal pobl rhag camddefnyddio sylweddau a helpu'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, eu gofalu a'u teuluoedd. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

7. Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n darparu: gwasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â gwella a diogelu iechyd, gwybodaeth ac ymchwil ym maes iechyd cyhoeddus, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol i bobl Cymru. Ceir **cynnydd net** o **£0.784 miliwn** i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17, fel a ganlyn:

Trosglwyddiadau rhwng Camau Gweithredu:

- **£0.542 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â chyllid dyfarniadau cyflog ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru
- **£0.195 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu mewn perthynas â throsglwyddo ystadau'r GIG i lechyd Cyhoeddus Cymru
- **£0.062 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â Gwasanaethau Sgrinio Retinopatheg Diabetig i lechyd Cyhoeddus Cymru
- **£(0.015) miliwn** i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â chyllid ar gyfer Ymgynghorwyr Deintyddol i mewn i Ddyraniad y Contract Deintyddol.

8. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Defnyddir y cyllid hwn i gyllido Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, un o adrannau annibynnol y Llywodraeth a sefydlwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

9. Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer brechlynnau i'r rhaglen clefydau ataliadwy. Mae hefyd yn cyllido ystod o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ogystal â mentrau i fynd i'r afael â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

10. Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi mentrau a chamau gweithredu sy'n cael eu datblygu i ategu *Ein Dyfodol Iach*, gan gynnwys y strategaeth rheoli tybaco a'r camau i ddarparu nyrsys mewn ysgolion uwchradd. Mae gostyngiad o **£(0.450) miliwn** i'r Cam Gweithredu hwn mewn perthynas â throsglwyddo Arolwg Iechyd Cymru i'r MEG Gwasanaethau Canolog ar ôl integreiddio sawl arolwg mawr, sefydledig i greu un arolwg.

11. Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd a'r rhaglen Cychwyn Iach. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

12. Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd

Caiff cyllid yn y Cam Gweithredu hwn ei gyfeirio at sefydlu a chynnal cyflenwadau strategol o frechlynnau cyn-bandemig, cyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfotigau, masgiau wyneb, anadlyddion a nwyddau traul. Darperir cyllid hefyd i ddatblygu a chynnal cyflenwadau ar gyfer gwrthfesurau iechyd eraill er mwyn ymateb i ollyngiadau damweiniol neu fwriadol o sylweddau cemegol, radiolegol biolegol, niwclear a ffrwydrod.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyllido'r Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus, sy'n galluogi'r gwasanaeth ambiwlans i ddarparu triniaethau mewn amgylcheddau halogedig neu leoliadau sy'n anodd eu cyrraedd. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

13. Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er budd Cleifion a'r Cyhoedd

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido gwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, sy'n ceisio helpu i greu tystiolaeth o safon sy'n llywio polisi ac sy'n fuddiol i gleifion a'r cyhoedd. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

14. Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido ystod o raglenni a datblygiadau polisi i helpu plant sy'n agored i niwed, a gwaith ar ddiogelu ac amddiffyn. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

15. Oedolion a Phobl Hŷn

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Mae hefyd yn cyllido ymrwymadau sy'n ymwneud â gweithredu strategaethau a pholisïau ym maes gofalwyr. Ceir **cynnydd** o £0.170 miliwn i'r Cam Gweithredu hwn yn dilyn arbedion a ryddhawyd o Gyllideb y Comisiynydd Pobl Hŷn.

16. Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Cam Gweithredu hwn helpu i weithredu Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Bydd y cyllid hwn yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o ddatblygu modelau gofal newydd a helpu i drawsnewid gwasanaethau. Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid cynllun grant i awdurdodau lleol ar gyfer y rhaglen datblygu'r gweithlu sy'n berthnasol i'r sector cyfan a chymorth ar gyfer Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth. Mae gostyngiad o £(0.075) miliwn i'r Cam Gweithredu hwn o ganlyniad i drosglwyddiad ariannol, i gyllideb graidd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, er mwyn parhau i gefnogi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.

17. Cyngor Gofal Cymru

Cyngor Gofal Cymru sy'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a sicrhau safonau uchel ymhob rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn yn 2016-17.

18. Comisiynydd Pobl Hŷn

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn. Swydd annibynnol yw hon - y cyntaf o'i bath yn y byd - a sefydlwyd er mwyn sicrhau y caiff buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, sy'n 60 oed neu'n hŷn, eu diogelu a'u hyrwyddo. Ceir gostyngiad o £(0.170) miliwn i'r Cam Gweithredu hwn, sy'n adlewyrchu disgwyliad cyson Llywodraeth Cymru y gellir sicrhau arbedion mewn perthynas â swyddi'r holl gomisiynwyr yn 2016-17.

19. Rhaglenni CAF/CASS Cymru

Sefydliad gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar blant yw CAF/CASS Cymru, ac mae'n darparu cyngor arbenigol o ran gwaith cymdeithasol i lysoedd achosion teuluol, y Llysoedd Sirol a'r Uchel Lys. Mae'r cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu hwn yn cefnogi dyletswyddau craidd y sefydliad, yn ogystal â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006, gan gynnwys darparu canolfannau cyswllt a gweithgareddau cyswllt. Nid oes unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn.

20. Cyfalaf

Mae Rhaglen Gyfalaf y GIG yn helpu i gyflawni Gofal Iechyd ar gyfer yr 21ain Ganrif drwy wella canlyniadau iechyd drwy sicrhau bod ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn gwella; gwella mynediad a phrofiadau cleifion; ac atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cyllid ar gyfer cerbydau ambiwlans a chanolfannau adnoddau gofal sylfaenol, yn ogystal ag ysbytai cymunedol a chanolfannau lles newydd. Ceir cynnydd o **£33.5 miliwn** mewn cyllid cyfalaf.

REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit			
Actions/BELs	2015-16 Baseline	Budget Changes & Prioritisation	2016-17 New Plans Draft Budget
BEL 0020 - LHBs, Trusts and Central Budgets	5,769,119	258,926	6,028,045
Delivery of Core NHS Services	5,769,119	258,926	6,028,045
BEL 0180 - NHS Primary Care	60,665		60,665
BEL 0682 - Other NHS Budgets	117,249	-14,337	102,912
BEL 0186 - Workforce (NHS)	40,308		40,308
BEL 0257 - Information Central Budgets	27,044	262	27,306
BEL 0265 - Patient Safety, Quality and Improvement	3,602		3,602
BEL 0275 - Chronic Diseases	242		242
Delivery of Targeted NHS Services	249,110	-14,075	235,035
BEL 0140 - Education and Training	182,871	-101	182,770
BEL 0185 - Workforce Development Central Budgets	1,279		1,279
Support Education & Training of the NHS Workforce	184,150	-101	184,049
BEL 0270 - Mental Health	18,411		18,411
Support Mental Health Policies & Legislation	18,411	0	18,411
BEL 0286 - Hospice Support	1,619	-363	1,256
Hospice Support	1,619	-363	1,256
Substance Misuse	26,975		26,975
Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation Plan	26,975	0	26,975
BEL 0250 - Public Health	85,694	784	86,478
Sponsorship of Public Health Bodies	85,694	784	86,478
BEL 0380 - Foods Standard Agency	3,516		3,516
Food Standards Agency	3,516	0	3,516
BEL 0232 - Targeted Health Protection & Immunisation	4,421		4,421
Deliver Targeted Health Protection & Immunisation Activity	4,421	0	4,421
BEL 0231 - Health Improvement & Healthy Working	5,187	-450	4,737
Promote Healthy Improvement & Healthy Working	5,187	-450	4,737
BEL 0280 - Inequalities in Health Fund	1,177		1,177
BEL 0400 - Welfare Food	8,504		8,504
Tackle Health Inequalities & Develop Partnership Working	9,681	0	9,681
BEL 0230 - Health Emergency Planning	6,712		6,712
Effective Health Emergency Preparedness Arrangements	6,712	0	6,712
BEL 0260 - Research & Development	43,365		43,365
Develop & Implement Research and Development for Patient & Public Benefit	43,365	0	43,365
BEL 0420 - Grants in Support of Child & Family Services	4,551		4,551
BEL 5333 - Advocacy	1,060		1,060
BEL 0460 - Services for Children	1,037		1,037
Children's Social Services	6,648	0	6,648
BEL 0661 - Older Persons Strategy	1,031	170	1,201
BEL 0620 - Community Services for Adults	31,626		31,626
BEL 0700 - National Strategy for Carers	1,095		1,095
Adult & Older People	33,752	170	33,922
BEL 0920 - Social Services Strategy	16,321	-75	16,246
Social Services Strategy	16,321	-75	16,246
BEL 0582 - Care Council for Wales (Revenue)	10,034		10,034
Care Council for Wales	10,034	0	10,034
BEL 0662 - Older People Commissioner	1,715	-170	1,545
Older People Commissioner	1,715	-170	1,545
BEL 1268 - CAFCASS Cymru - Revenue	10,162		10,162
CAFCASS Cymru Programmes	10,162	0	10,162

Total Revenue - Health & Social Services	6,486,592	244,646	6,731,238
---	------------------	----------------	------------------

CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit

Actions	2015-16 Baseline	Budget Changes & Prioritisation	2016-17 New Plans Draft Budget
BEL 0020 - Trust and LHB Capital	204,446	33,481	237,927
BEL 0682 - Other NHS Budgets	829		829
Total NHS Delivery	205,275	33,481	238,756
BEL 1682 - Substance Misuse	5,072		5,072
Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation Plan	5,072	0	5,072
Effective Health Emergency Preparedness Arrangements	4,492		4,492
Total Public Health & Prevention	4,492	0	4,492
General Capital Funding	4,691		4,691
Care Council for Wales	20		20
Total Social Services	4,711	0	4,711
Total Capital - Health & Social Services	219,550	33,481	253,031

REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure

Actions	2015-16 Baseline	Budget Changes & Prioritisation	2016-17 New Plans Draft Budget
NHS Impairments and Provisions			0
Total NHS Impairments and Provisions	0	0	0
Total AME - Health & Social Services	0	0	0

Health & Social Services	2015-16 Baseline	Budget Changes & Prioritisation	2016-17 New Plans Draft Budget
Revenue DEL	6,486,592	244,646	6,731,238
Capital DEL	219,550	33,481	253,031
Total DEL	6,706,142	278,127	6,984,269
Annually Managed Expenditure	0	0	0
Total - Health & Social Services	6,706,142	278,127	6,984,269

Atodiad C: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Asesiad Effaith Integredig ar Gyllideb 2016-17

TROSOLWG O'R PORTFFOLIO

Mae'r Adran yn cefnogi'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drwy ddatblygu a chyflwyno polisiau sy'n darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy i Gymru ac yn cynnig sylfaen ar gyfer ymyriadau eraill gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd a lles i bobl Cymru.

Mae'r portffolio yn cynnwys rhai o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y GIG gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau, gwella mynediad at wasanaethau a phrofiadau cleifion, ac atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bawb. Mae ein penderfyniad i ddyrannu cyllid ychwanegol o £293m ar gyfer iechyd yn 2016-17 yn cydnabod bod darparu setliad iechyd digonol a chynaliadwy yn ystyriaeth hollbwysig i gymdeithas yn gyffredinol, ac mae hefyd yn cydnabod yr effeithiau cadarnhaol anghymesur ar grwpiau gwarchoddedig. Defnyddir y cyllid hwn i gynnal mynediad at wasanaethau aciwt o safon pan fo'u hangen, i hyrwyddo datblygiad parhaus gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn nes at adref ac i gynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a phobl hŷn. Fel y nodwyd gennym y llynedd, mae ymchwil yn awgrymu bod gwariant ar wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg yn lleihau anghydraddoldeb drwy fod o fwy o fudd i gartrefi incwm isel na chartrefi cyfoethog. Gellir mesur yr effaith gyfartalu yn ei chyfanrwydd, ac effaith rhaglenni gwariant gwahanol, a gellir gosod rhaglenni yn eu trefn o'r rhai sy'n fwyaf ffafriol i bobl dlawd i'r rhai mwyaf ffafriol i bobl gyfoethog. Mae'r GIG yn gwario mwy y pen ar bobl hŷn ac ar blant ifanc, ac mae cartrefi sy'n cynnwys unigolion o'r ddau fath i'w gweld yn fwy aml mewn grwpiau incwm is na'r cyfartaledd.

Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella canlyniadau iechyd plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a mynd i'r afael â'r ddeddf gofal wrthgyfartal yn ganolog i amcanion ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Nod y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd a lles pawb yng Nghymru drwy ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel, gan gynnwys cyllido GIG Cymru a gosod fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yn ogystal â rheoleiddio a hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn darparu cymorth sylweddol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Lle ceir anghydraddoldebau iechyd, rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r dylanwadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar iechyd a lles.

Proffil Gwariant

Terfyn DEL Adnoddau Cyllidol			
Maes Rhaglenni Gwariant	Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16	Newidiadau 2016-17	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft 2016-17
	£m	£m	£m
Darpariaeth y GIG	6018.229	244.851	6263.080
Cyllidebau Canolog Iechyd	231.155	(0.464)	230.691
Iechyd y Cyhoedd ac Atal	158.576	0.334	158.910
Gwasanaethau Cymdeithasol	68.470	(0.075)	68.395
CAFCASS Cymru	10.162	-	10.162
Cyfansymiau	6486.592	244.646	6731.238

Newidiadau Allweddol i Wariant

- Cyllid ychwanegol i Iechyd o £293m;
- Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned – Drwy'r cyllid ychwanegol ar gyfer Iechyd, dyrennir £30m i gynyddu'r cyllid ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol i £50m yn 2014-16;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn - o'r £293m ychwanegol a neilltuwyd, £30m ychwanegol i gynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer Iechyd meddwl a gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn;
- Gwasanaethau Cymdeithasol – dyrannu £21m ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw;
- Ymyriadau ataliol mewn gofal Cymdeithasol ehangach – Diogelu'r rhaglen Cefnogi Pobl;
- Iechyd y Cyhoedd – rydym yn diogelu buddsoddiad mewn rhaglenni i wella Iechyd y Cyhoedd. Bydd cyllidebau a neilltuwyd ar gyfer Iechyd y Cyhoedd ac Atal yn cynyddu £0.334m o £158.576m yn 2015-16 i £158.910m yn 2016-17. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu trosglwyddiad a/neu ehangiad rhaglenni Iechyd y Cyhoedd.

Iechyd - Effeithiau

Mae gwariant ar y GIG yn bwysig ond nid yw darparu gofal o safon uchel pan fydd pobl yn sâl ond yn rhan o'r ateb i Iechyd da. Mae gennym hefyd gyfrifoldeb ar y cyd i atal afiechyd rhag digwydd lle bo'n bosibl. Mae ffocws o'r newydd ar atal yn arbennig o bwysig pan ystyriwn yr angen i ddiogelu Iechyd plant a phobl ifanc yn y dyfodol. Nodwyd pwysigrwydd ailgydbwysu'r system Iechyd yng Nghymru tuag at atal mewn nifer o ddogfennau strategol allweddol gan gynnwys Law yn Llaw at Iechyd.

Mae ffocws ar atal ar draws rhaglenni strategol a pholisïau Llywodraeth Cymru yn gwbl gyson ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, gan ei fod yn ymwneud â rhoi camau ar waith ar bwyntiau sy'n gwneud y gorau o'r potensial ar gyfer manteision hirdymor, o ran cynnydd iechyd a lleihau'r costau hirdymor uwch sy'n gysylltiedig â salwch y gellir ei atal. Mae gwaith ataliol hefyd yn elfen hollbwysig yn y bartneriaeth newydd rhwng y llywodraeth a'r cyhoedd, lle mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu a hyrwyddo amodau cymdeithasol sy'n gydnaws ag iechyd da, gyda chyfrifoldeb cyfatebol ar bob un ohonom fel unigolion i weithredu mewn ffyrdd sy'n hybu ac yn diogelu ein hiechyd a'n lles ein hunain.

Mae ein gweithgarwch yn y maes hwn yn amrywio o raglenni sy'n canolbwyntio ar hybu negeseuon cadarnhaol ynghylch ffordd o fyw a chynorthwyo pobl i fod yn fwy gwybodus ynglŷn â'u hiechyd a'u lles, i raglenni imiwneiddio a brechu, cefnogi gwasanaethau iechyd cyhoeddus ataliol megis gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu, a rheoleiddio agweddau ar yr amgylchedd cymdeithasol ehangach. Mae hyn hefyd yn golygu gweithio mewn partneriaeth agos gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau eraill y GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Gan fod y GIG yn wasanaeth rhad ac am ddim yn y man defnyddio, bydd y cyllid ychwanegol a neilltuir yn 2016-17, yn ogystal â'r cyllid craidd presennol a ddyrennir i Fyrddau Iechyd, yn cyfrannu'n sylweddol at yr agenda trechu tlodi ac anghydraddoldeb. Mae gwaith i atal afiechyd y mae modd ei osgoi hefyd yn cyfrannu'n allweddol at yr agenda hon, gan fod llawer o'n blaenoriaethau iechyd cyhoeddus yn effeithio'n anghymesur ar yr unigolion, y teuluoedd a'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae enghreifftiau o weithredu trawslywodraethol o'r fath yn cynnwys ehangder y camau a ddatblygir drwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb.

Gyda'r tueddiadau'n dangos galw cynyddol yn y nifer sy'n cael eu trin am salwch, gofal heb ei drefnu a gofal cymdeithasol, a chan gydnabod ar yr un pryd yr effeithiau cadarnhaol sylweddol ar grwpiau gwarchoddedig, rydym wedi mynd ati mewn modd integredig i ddyrannu cyllid i Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ein dull yw helpu dinasyddion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles drwy'r dull cydgynhyrchu, yn ogystal â datblygu GIG wedi'i arwain gan ofal sylfaenol a gofal cymunedol ataliol. Geilw hyn am newid adnoddau ariannol ac adnoddau'r gweithlu'n barhaus er mwyn darparu mwy o ofal iechyd yn y gymuned. Mae'r dull hwn yn cynnwys mwy o gydweithio rhwng y gwasanaethau iechyd, llywodraeth leol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Dylid darparu gwasanaethau yn y cartref neu'n agos at adref, a'u cynllunio i atal problemau a chanfod afiechyd yn gynnar, osgoi'r angen am ofal ysbyty a chefnogi rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty, a galluogi pobl i farw mewn man gofal o'u dewis megis yn eu cartrefi eu hunain. Mae mwyafswm helaeth o'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i'r GIG yn y grant bloc. Nod y fframwaith polisi yw llywio cyfluniad gwasanaethau'r GIG a'r adnoddau hynny tuag at y model hwn sy'n canolbwyntio ar ofal sylfaenol a chymunedol.

Ar gyfer y cyllid GIG ychwanegol o £200m i Gyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd, bydd yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ystyried effaith eu penderfyniadau gwariant pan bennir eu prif ddyraniadau yn rhan o Ddyraniadau Refeniw Byrddau Iechyd a gyhoeddir yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr.

Bellach mae'n rhaid i bob Bwrdd Iechyd lunio cynllun integredig tair blynedd ac fel rhan o'r gofynion cynllunio yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru mae'n ofynnol iddynt ddangos sut mae eu cynllun integredig yn adlewyrchu cyfrifoldebau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n ofynnol felly i'r Byrddau Iechyd ddangos sut maent yn ystyried pob un o'r nodweddion gwarchoddedig yn rhan o'u dyletswydd o dan y Ddeddf gan sicrhau hefyd fod hawliau plant yn cael eu hystyried.

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG ar hyn o bryd hefyd yn cyfeirio at yr angen i ystyried cynllunio ar gyfer anghenion grwpiau penodol sy'n cynnwys:

- ystyried amrywiaeth ddiwylliannol mewn cymunedau ac anghenion iechyd grwpiau penodol,
- adlewyrchu'r heriau penodol a wynebwr mewn cymunedau trefol a gwledig, gan gynnwys amddifadedd,
- ystyried yr iaith Gymraeg.

Tystiolaeth ac Ymgysylltu

Nododd yr adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014 ar y pwysau ariannol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru y bydd y GIG yn parhau'n fforddiadwy os yw'n cael rhan o'r twf mewn termau real a ragwelir yn economi'r DU ac os yw'n sicrhau'r enillion o ran arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchiant y mae Nuffield yn eu nodi fel rhai cyraeddadwy. Mae'r GIG yng Nghymru eisoes wedi cael llwyddiant sylweddol yn y meysydd hyn, drwy fesurau megis gwelliannau mewn effeithlonrwydd a chynhyrchiant, lleihau hyd cyfnodau aros yn yr ysbyty a gostyngiadau yn nifer y rhai sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty.

Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned

Mae'r mwyafswm llethol o ofal iechyd yng Nghymru yn cael ei ddarparu yn y gymuned, yn agos at gartrefi cleifion. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi bod yn sbardun allweddol i weithio mewn partneriaeth ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gyda'r trydydd sector a'r sector annibynnol, ar ddatblygu gwasanaethau i helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol. Mae hyn yn cynnwys darparu gofal a chymorth yn y cartref ac yn y gymuned i osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty yn ddiangen ac i atal achosion o oedi wrth ryddhau pobl o'r ysbyty. Drwy'r cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd, dyrennir £30m er mwyn chwyddo'r cyllid ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol i £50 miliwn yn 2016-17.

Iechyd Meddwl

Cafwyd ymrwymiad i glustnodi cyllid iechyd meddwl ers mis Medi 2008 er mwyn diogelu'r swm o arian yng nghyllideb y GIG a datganiad clir y gellir gwneud arbedion ond na ellir gwario unrhyw arbedion ar ddim heblaw'r hyn a glustnodwyd. Rydym yn parhau i gydnabod rôl bwysig y gwasanaethau iechyd meddwl yn gwella canlyniadau i gleifion. Felly, rydym wedi dyrannu £30m o'r £293m i gynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl

yn ogystal â chyllid ar gyfer pobl hŷn. Yn unol â'n hymagwedd integredig tuag at iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r addewid hwn er mwyn helpu i wneud gwelliannau pellach mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a gofal dementia, er mwyn sicrhau manteision i grwpiau allweddol.

Effeithiau

Nod *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* yw mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu a threchu anghydraddoldebau. Caiff stigma a gwahaniaethu a ddioddefir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl a salwch meddwl eu lleihau gyda'r canlyniad gweithredu ategol _ *Mae pobl â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau hygwlwyf yn cael mynediad teg, mae gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion poblogaeth amrywiol Cymru*. Gwneir cynnydd ar gamau gweithredu penodol y cynllun cyflawni yn y maes hwn.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Mewn perthynas â'n gofynion mewn deddfwriaeth i ystyried anghenion penodol plant a phobl ifanc, mae'r ddarpariaeth o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth ar gyfer gwella. Bob blwyddyn, rydym yn parhau i neilltuo £7.65m ychwanegol ar gyfer gwella ystod y ddarpariaeth CAMHS, a fydd hefyd yn galluogi mwy o bobl ifanc sy'n gorfod mynd o Gymru i gael triniaeth ar hyn o bryd i gael yr un driniaeth yng Nghymru, gan arbed arian ar leoliadau costus o'r fath.

Rydym hefyd yn hyrwyddo datblygiad timau triniaeth ddwys yn y gymuned mewn modd cyson ar draws Cymru gyfan a dull cynnar o nodi seicosis a phobl ifanc mewn argyfwng yn ystod y flwyddyn hon. Mae tystiolaeth yn dangos y gallai nodi cynnar a thriniaeth yn y gymuned leihau cyfraddau derbyn i'r ysbyty a hyd arhosiad pobl ifanc sy'n ddifrifol wael. Yn gynyddol, mae ymchwil yn cadarnhau manteision allgymorth pendant ac yn cefnogi'r angen i ddatblygu trefniadau partneriaeth lleol ar draws asiantaethau. Mae hyn yn cyd-fynd ag egwyddorion gofal iechyd darbodus a lle bynnag y bo modd, pan fydd risg yn caniatáu, dylid gofalu am bobl ifanc yn y gymuned mor agos at eu cartrefi â phosibl.

Mae rhaglen wella CAMHS wedi bod ar waith ers 2014-15 a bydd yn parhau yn 2016-17. Geilw hyn am newid diwylliannol yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gall adnodd bach ac arbenigol CAMHS ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r salwch meddwl mwyaf parhaus. Wrth fwrw ymlaen â hyn, bydd angen i CAMHS adeiladu, cynnal a chryfhau partneriaethau gydag asiantaethau eraill ym maes gofal cymdeithasol awdurdodau lleol ac mewn mannau eraill. Mae timau amlddisgyblaethol sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a mentrau fel elfen iechyd Dechrau'n Deg yn hollbwysig i sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael mynediad at CAMHS arbenigol ar y cyfle cyntaf; a sicrhau hefyd nad oes unrhyw anfantais i rai sydd â salwch meddwl ar lefel is, y gallai asiantaethau eraill ymdrin â nhw, gyda chymorth CAMHS priodol, gan leihau stigma.

Plant sy'n derbyn gofal a throseddwyr ifanc

Dengys tystiolaeth fod pobl ifanc sy'n derbyn gofal â lefelau uwch o anhwylder ymlyniad. Yn yr un modd, mae lefelau uwch o salwch meddwl i'w weld ymhlith rhai sy'n rhan o'r system troseddau ieuencid. Gall adnabod a mynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl y grwpiau agored i niwed hyn yn gynnar sicrhau eu bod yn gallu integreiddio a chymryd rhan lawn yn yr ysgol ac yn eu cymunedau ehangach. Gall hefyd helpu gydag adsefydlu a lleihau cyfraddau atgwympo ymhlith troseddwyr ifanc. I gefnogi hyn, rydym wedi rhyddhau £250,000 ychwanegol ers 2015-16 i wella'r ffordd y mae CAMHS yn gweithio gyda thimau troseddau ieuencid.

Sipsiwn a Theithwyr

Ym mis Gorffennaf 2015 cyhoeddwyd 'Teithio at Iechyd Gwell'. Mae'n ymateb i dystiolaeth glir fod angen gwella gwasanaethau gofal iechyd a mynediad atynt i Sipsiwn a Theithwyr. Cyfeiria hyn at sawl un o ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu*, sef gwella mynediad a phrofiad y claf ac atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy gynorthwyo ymarferwyr gofal iechyd i weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr. Lluniwyd y canllawiau mewn cydweithrediad â Sipsiwn a Theithwyr ar bob cam ac mae'n rhoi cyngor ar ymarfer proffesiynol a allai annog pobl i gyfranogi mwy ym maes iechyd a gwasanaethau iechyd. Cefnogir canllawiau Teithio at Iechyd Gwell gan nifer o ddulliau o fesur canlyniadau i fyrdau iechyd allu cynorthwyo yn y gwaith o'u gweithredu'n effeithiol. Er bod goblygiadau ariannol yn y flwyddyn gyfredol yn ymylol, yn y tymor hwy, yn dilyn ymgynghori a gweithrediad pellach y canllawiau, efallai y bydd goblygiadau ariannol pellach, yn enwedig o ran sicrhau bod y GIG yn meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a hyfforddiant i staff gofal iechyd mewn perthynas â'r gymuned hon.

Ym mis Medi 2015 cyhoeddwyd fframwaith gwasanaeth ar gyfer trin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a phroblemau oherwydd camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Lluniwyd yr arweiniad hwn i lywio a dylanwadu ar y modd y cyflawnir ymarfer integredig a chydweithredol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i oedolion, plant a phobl ifanc. Unwaith eto, ystyrir bod y goblygiadau ariannol yn ymylol yn y flwyddyn gyfredol, ond gallai fod goblygiadau pellach o ran y modd y caiff y canllawiau hyn eu rhoi ar waith yn enwedig o ran hyfforddiant a roddir i staff rheng flaen.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo mewn nifer o feysydd ychwanegol gan gynnwys cefnogi'r broses o gyflwyno concordat Argyfwng rhwng yr Heddlu, y GIG a phartneriaid eraill i wella ymatebion i bobl sy'n cysylltu â'r heddlu ynglŷn â phroblemau iechyd meddwl, ac yn arbennig, mynd i'r afael ag anghenion iechyd ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Cyn-filwyr

Ers 2014-15 rydym wedi rhyddhau £100,000 ychwanegol yn flynyddol fel rhan o'r buddsoddiad mewn therapïau seicolegol i wella amseroedd aros am driniaeth yn ein gwasanaeth iechyd meddwl i gyn-filwyr, GIG Cymru i Gyn-filwyr. Caiff hyn ei ategu gan waith parhaus rhwng y gwasanaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn gweithredu canlyniadau adolygiad a gynhaliwyd yn 2014 ac a fydd yn gwneud y gwasanaeth yn fwy ymatebol i anghenion cyn-

filwyr sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Rhagwelir (gan y Lleng Brydeinig Frenhinol ac elusennau mawr eraill y lluoedd arfog) y bydd y galw am y gwasanaeth yn cynyddu o ganlyniad i frwydro diweddar yn Affganistan ac wrth i niferoedd y rhai sy'n gadael y gwasanaeth godi o ganlyniad i ddileu swyddi milwrol.

Mae iechyd meddwl yn 1 o'r 4 maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu cynnar a nodwyd yn fframwaith strategol yr iaith Gymraeg - *Mwy na Geiriau*. Dangosodd Arolwg Boddhad Defnyddwyr Gwasanaeth (Archwiliad Hanfodion Gofal) ym mis Mehefin 2013 fod 98% o gleifion yn cael gwybodaeth lawn am eu gofal mewn iaith a modd sy'n sensitif i'w hanghenion. Er mwyn cefnogi hyn ymhellach rydym wedi sicrhau bod y pedwar llyfr mwyaf poblogaidd o dan Gynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael ar CD. Yn lleol, mae mentrau iaith Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys datblygu llwybr defnyddwyr gwasanaeth dwyieithog i sicrhau bod gweithwyr iechyd meddwl dwyieithog ar gael ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg, a nodi anghenion heb eu diwallu. Bellach, mae Pecyn Cymorth Asesu Gwybyddol Cymdeithas Alzheimer yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar draws gofal sylfaenol fel adnodd diagnostig, a chaiff ei gydnabod yn eang gan gyrff proffesiynol, gan gynnwys Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae'n parhau i chwarae rhan hanfodol yn cynyddu dealltwriaeth meddygon teulu ac yn hybu gwell dealltwriaeth a rhagoriaeth. Mae defnyddio dewis iaith yn arbennig o bwysig, nid yn lleiaf oherwydd gall y dirywiad sy'n gysylltiedig â dementia olygu na all siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf gyfathrebu'n rhwydd mewn unrhyw iaith heblaw eu mamiaith. Yn ddiweddar, cwblhaodd Prifysgol Bangor gyfieithiad o'r adnodd hwn, sy'n golygu bod mwy o ddewis i glinigwyr a chleifion Cymraeg eu hiaith.

Ceir cysylltiad clir rhwng problemau iechyd meddwl a thlodi. Canfu astudiaethau mai ymhlith pobl ag afiechyd meddwl y mae'r gyfradd gyflogaeth isaf o blith unrhyw grŵp o bobl anabl. Mae modd dadlau hefyd eu bod yn dioddef mwy yn sgil tlodi, tai llai addas a mwy o arwahanrwydd cymdeithasol. Mae'n bwysig fod ein hymdrechion i drechu tlodi yn cydnabod hyn. Gwyddom fod lleihau nifer yr achosion o broblemau iechyd meddwl yn bwysig er mwyn cael cymunedau sy'n gweithredu'n iach, gwella cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol a sicrhau ffyniant. Gwyddom mai pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru sydd fwyaf tebygol o ddioddef waethaf yn sgil salwch meddwl a mwy o achosion o salwch meddwl.

Mae cyllidebau'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, trechu tlodi ac adeiladu cymunedau cynaliadwy, gan gyfrannu at gyflogi pobl yn uniongyrchol ym maes iechyd meddwl, yn enwedig y Trydydd Sector a gefnogir drwy arian grant S64. Mae ein gwaith hefyd yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed drwy hyrwyddo adferiad sy'n eu helpu i fyw'n annibynnol a chymryd rhan yn economaidd. Dengys tystiolaeth mai salwch meddwl yw un o'r prif resymau dros absenoldeb yn y gweithlu ac mae'n ffactor sylweddol yn achos nifer o bobl sy'n economaidd anweithgar yn hirdymor. Mae bod mewn gwaith yn diogelu'n helaeth rhag gorfod byw mewn tlodi. Bydd hybu lles meddyliol a sefydlu gwasanaethau cymorth hygyrch yn

lleihau nifer y bobl sy'n methu â gweithio oherwydd salwch meddwl, ac i bobl mewn gwaith, bydd yn ysgogi gwellhad mwy buan, yn lleihau'r amser y byddant yn absennol o'r gwaith ac yn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt. Rydym yn cwblhau manylion rhaglen newydd o gefnogaeth gan gymheiriaid i helpu bron 6,000 o bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl i gael gwaith neu i ddod yn nes at gael gwaith. Cefnogir y rhaglen yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Ceir rhaglen arall o gefnogaeth gan gymheiriaid a fydd hefyd yn helpu pobl mewn gwaith sy'n dioddef problemau iechyd i gadw eu gwaith.

Un o themâu allweddol ein dull o weithredu yw mynd i'r afael â phroblemau yn gynnar mewn bywyd er mwyn eu hatal rhag datblygu'n broblemau mwy difrifol ar ôl tyfu'n oedolion. Bydd gan 1 o bob 10 o blant rhwng 5 ac 16 oed broblem iechyd meddwl, a bydd llawer mwy â phroblemau ymddygiad. Yn ogystal, mae llawer o blant yn gweithredu fel gofalfwr ac yn gorfod cynorthwyo rhiant/gwarcheidwaid sydd â salwch meddwl eu hunain. Maent angen cymorth i gyflawni eu rôl, gan gynnwys gwybodaeth a chynghor.

Ar ben arall y sbectrwm oedran, mae gwella gofal, cymorth ac ymwybyddiaeth o ddementia yn flaenoriaeth allweddol. Mae dementia yn costio cryn dipyn i'r pwrs cyhoeddus a phreifat, gyda'r niferoedd yn cynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio. Gofalfwyr sy'n ysgwyddo cyfran fawr o'r gost a gall gyfrannu'n sylweddol at dlodi'r cartref. Mae Dementia UK yn amcangyfrif bod £690m y flwyddyn o incwm yn cael ei golli gan ofalfwyr sy'n gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau oriau gwaith. Mae'r gost yn bersonol hefyd, gan fod y gofalfwr yn aml yn gorfod aberthu eu bywyd cymdeithasol er mwyn darparu gofal pwrpasol 24/7.

Erys pryderon mewn perthynas â Diwygio Lles yng Nghymru a chynhyrchwyd papur ar effaith diwygio lles ar iechyd pobl â salwch meddwl difrifol gan y sefydliad trydydd sector, Hafal. Mae'r papur yn disgrifio sut y gall y diwygiadau presennol i'r system budd-daliadau lles beri anhawster i bobl yng Nghymru sydd â salwch meddwl difrifol a'r cysylltiad posibl rhwng hyn a'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes o ran y canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol y mae'r grŵp hwn o bobl yn eu hwynebu.

Tystiolaeth

Mae buddsoddiad rheolaidd ers 2011-12 o £3.5 miliwn yn cefnogi deddfwriaeth iechyd meddwl arloesol Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a gychwynnodd yn 2012. Mae'r buddsoddiad wedi golygu bod Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol yn cael eu darparu'n lleol bellach ledled Cymru. Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Medi 2015, cynhaliwyd dros 80,000 o asesiadau iechyd meddwl sylfaenol (nid oedd y gwasanaeth hwn ar gael cyn gweithredu'r Mesur). Nifer cyfartalog yr asesiadau bob mis yw 2,669.

Mae'r Mesur hefyd yn sicrhau hawl statudol i gynllun gofal a thriniaeth hollataidd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mewn gofal eilaidd, adolygiad rheolaidd a hawliau i ailasesu gwasanaethau yn dilyn eu rhyddhau o ysbyty. Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Hydref 2015 roedd 24,767 o drigolion Cymru ar

gyfartaledd yn cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd bob mis. Hefyd, buddsoddodd y Mesur £1.5 miliwn tuag at sicrhau eiriolaeth i bob claf iechyd meddwl mewnol pa un a ydynt yn gleifion dan gadwad ai peidio.

Roedd adran 48 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediad y Mesur at ddibenion cyhoeddi un neu ragor o adroddiadau o fewn pedair blynedd i'w gychwyn. Bydd y ddyletswydd derfynol i lunio adroddiad adolygu yn cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015. Mae'r adolygiad wedi defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys:

- grwpiau gorchwyl a gorffen a gynnulliwyd o blith ystod o randdeiliaid i ystyried materion penodol
- ymchwil a gomisiynwyd yn annibynnol
- arolygon boddhad defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr cyffredinol
- arolygon a sylwadau'r trydydd sector
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol y Mesur
- dulliau meintiol o fesur perfformiad
- gwaith craffu ar ôl deddfu y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar argymhellion y Mesur

ac yn cefnogi canfyddiadau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod y Mesur wedi gwella gwasanaethau, ond hefyd ei fod wedi sicrhau gwerth am arian, a bod y gwelliannau'n parhau.

Bydd set ddata craidd iechyd meddwl, gan gynnwys canlyniadau o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth, yn gwerthuso effaith y strategaeth. Bydd yn cynnwys mesur canlyniadau o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth a bydd hefyd yn casglu data ethnigrwydd ym mhob un o leoliadau cleifion mewnol seiciatrïg y GIG. Rydym yn parhau i ddatblygu hyn gydag Uned Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG a Diverse Cymru

Mae Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (2012) yn disgrifio sut mae iechyd meddwl yn sbardun allweddol i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd. Bydd y cynnydd yn y gyllideb iechyd meddwl, i wasanaethau oedolion a phlant fel ei gilydd, yn sicrhau bod Cymru ar y blaen o ran hybu iechyd meddwl da a mynd i'r afael â salwch meddwl pan fydd yn digwydd. Strategaeth integredig ar draws y Llywodraeth yw hi, sy'n sicrhau bod iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach megis tai, addysg a gwaith yr heddlu yn cydweithredu i gyflawni ei chanlyniadau. Mae'n oed-gynhwysol ar gyfer plant ac yn ymgorffori Siarter y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau'r Plentyn yn ei dull o weithredu. Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau gwelliant parhaus ac o ganlyniad, mae'n cynnwys cynlluniau cyflawni tair blynedd ar hyd y deng mlynedd y bydd yn weithredol, er mwyn sicrhau bod y camau nesaf ar gyfer gwella yn cael eu hystyried. Mae wedi ystyried y cynllun ar gyfer y tair blynedd gyntaf ac mae'r canfyddiadau, ochr yn ochr ag ymgysylltiad pwysig â rhanddeiliaid wedi llywio'r cynllun cyflawni nesaf sy'n cael ei ddrafftio ar gyfer y cyfnod 2016-19. Bydd y cynllun hwn yn destun ymgynghoriad ffurfiol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016 ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2016.

Ystyrir bod gan bobl â phroblemau iechyd meddwl anabledd, felly i bob pwrpas mae'r strategaeth hon yn anelu at estyn yn gadarnhaol i galon y broses o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Caiff materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg eu hystyried yn llawn mewn perthynas â'r Strategaeth a'i chynllun cyflawni ac ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf, rhoddir sylw arbennig, er enghraifft, i bobl â dementia sydd ag angen clinigol am asesiad yn eu hiaith gyntaf.

Bydd y buddsoddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar ddatblygiad economaidd hirdymor Cymru drwy greu swyddi arbenigol o ansawdd uchel yn y GIG. Bydd hefyd yn helpu i chwyddo'r gweithlu ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mae disgwyl i'r gweithlu nyrsio yn CAMHS gynyddu tua dwy ran o dair o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn.

Yn fwy cyffredinol, bydd y buddsoddiad yn cefnogi amcanion trechu tloedi drwy wella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc, sy'n ganolog i'r cynlluniau gwariant. Dengys tystiolaeth y gellir priodoli'r cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod yn y blynyddoedd diwethaf (gyda mwy na 100% o gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau dros bedair blynedd), yn rhannol i atgyfeiriadau ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol. Caiff £2m o gyllid ei dargedu at ddatblygu gwasanaethau i wneud diagnosis a thrin y cyflyrau hyn a fydd yn sicrhau manteision uniongyrchol i gyrhaeddiad pobl ifanc yn sgil eu gallu i gymryd rhan yn llawn yn eu haddysg. Hefyd, targedir cyllid tuag at bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, y dangosodd ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai fod ganddynt lefelau uwch o anghenion iechyd meddwl. Bydd sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn modd amserol yn gostwng lefelau aildroseddu ymhlith y grŵp hwn gan hyrwyddo'r broses o'u hadsefydlu yn y gymdeithas.

Ar gyfer oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl, mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi adferiad pobl a'u cadw mewn gwaith os ydynt yn datblygu problemau iechyd meddwl ac yn eu caniatáu i ailymgysylltu â'r gweithle wrth iddynt wella. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad economaidd fel y gwna cymorth i'w gofalwyr allu parhau yn y gweithle er mwyn lleihau tloedi.

Mae cyfran sylweddol o'r buddsoddiad iechyd meddwl newydd ar gyfer 2015-16 (£5.5m) wedi'i dargedu tuag at gefnogi a gwella gwasanaethau dementia, cyflwr sy'n effeithio'n fwyaf penodol ar bobl hŷn, sy'n boblogaeth â nodwedd warchodedig. Mae hyn yn cynnwys £4.05m i helpu i sefydlu timau cyswllt seiciatrig ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru i gynorthwyo staff i ddarparu asesiadau iechyd meddwl amserol a lleihau hyd arhosiad a chyfraddau aildderbyn i'r ysbyty, £500,000 o fuddsoddiad newydd ar gyfer gweithwyr cymorth Therapi Galwedigaethol mewn unedau iechyd meddwl i bobl hŷn er mwyn gwella gweithgareddau dydd ac ansawdd gofal a £800,000 o gyllid newydd ar gyfer Gweithwyr Cymorth Dementia Gofal Sylfaenol. Hefyd, roedd £240,000 o gyllid anghylchol ar gyfer sesiynau nyrsys cyswllt dementia i gynyddu cyfraddau diagnosis a hyfforddiant ar gyfer staff cartrefi gofal.

Mae poblogaeth Cymru yn heneiddio ac o ganlyniad, bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Gymdeithas

Alzheimer, ar gyfer ei hail argraffiad o'r adroddiad Dementia UK, yn dangos y bydd 850,000 o bobl yn [byw gyda dementia](#) yn y DU erbyn 2015. Mae hyn yn costio £26 biliwn y flwyddyn i'r DU. Telir dwy ran o dair (£17.4 biliwn) o gost amcangyfrifedig dementia gan bobl â dementia a'u teuluoedd, naill ai drwy [ofal di-dâl](#) (£11.6 biliwn) neu drwy dalu am ofal cymdeithasol preifat. Mae gwella gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o ddementia nid yn unig yn gwella ansawdd eu bywydau hwy, mae hefyd yn gwella ansawdd bywydau aelodau teuluol sy'n gorfod ysgwyddo'r baich a'r gost o ofalu amdanynt, gyda llawer ohonynt yn gorfod rhoi'r gorau i weithio er mwyn cynorthwyo eu perthnasau. Bydd hyn yn effeithio ar ansawdd eu bywydau eu hunain ac felly bydd buddsoddi mewn gwasanaethau newydd yn atal tlodi ymysg y boblogaeth ehangach hefyd ac yn hyrwyddo blaenoriaethau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

O ran y nodweddion gwarchoddedig eraill, gellir dangos y bydd y buddsoddiad a ddarperir o 2015-16 yn creu manteision ehangach. Yn benodol, bydd darparu cyllid newydd o £1.5m ar gyfer gwasanaethau amenedigol (nodweddion gwarchoddedig mamolaeth a phlant) yn gwella proses ymlyniad rhwng y fam a'r plentyn y gwyddys ei bod yn gwella canlyniadau ar gyfer y plentyn a'r teulu ac yn atal risgiau o broblemau yn ddiweddarach mewn bywyd. Defnyddir yr arian i sefydlu gwasanaethau amenedigol arbenigol yn y gymuned ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru.

Rydym hefyd yn darparu £3 miliwn (£1.9m ar gyfer oedolion ac £1.1m ar gyfer plant) i wella mynediad at therapïau seicolegol. Mae'r Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol wedi cynhyrchu cynllun gweithredu sy'n darparu adnodd i gynorthwyo byrddau iechyd i ddatblygu gweithlu gyda'r cymwyseddau i ddarparu therapïau seicolegol. Mae byrddau iechyd wedi cyflwyno eu cynigion gan ddefnyddio'r fframwaith hwn er mwyn dangos sut y maent yn bwriadu gwella mynediad at therapïau seicolegol. Mae'r fenter hefyd yn cefnogi unigolion a allai fod wedi dioddef stigma a gwahaniaethu o ganlyniad i gyfeiriadedd rhywiol, anabled, hil, crefydd a chred, gan gyfrannu at gydlyniant cymunedol.

Mae integreiddio a chydweithio yn ganolog i'r gwaith hwn, yn enwedig o ran cymorth gofal mwy hirdymor ar gyfer pobl hŷn â dementia, lle mae'r ddarpariaeth dai a gofal a chymorth awdurdodau lleol yn rhan o'r pecyn ehangach o gymorth ar gyfer y gymuned hon. Hefyd mewn perthynas â darparu ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, lle rydym yn buddsoddi £7.65m, a lle mae darpariaeth y GIG yn un rhan o wasanaeth sy'n rhychwantu gwaith ieuenctid, gwasanaethau plant Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cymdeithasol, cwnsela ysgolion ac eraill.

Datblygwyd cynigion ariannu o ganlyniad i dystiolaeth o'r angen i wella darpariaeth y Comisiynydd Plant, ymchwiliadau pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ymchwiliadau AGIC/Swyddfa Archwilio Cymru ac adborth arall gan randdeiliaid.

Ceir disgwyliad cyffredinol bod defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan weithredol ac yn cydgynhyrchu fel partneriaid cyfartal yn eu dewisiadau gofal

eu hunain ac yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu eu safbwyntiau drwy gyfranogi ar fyrddau partneriaeth lleol a chenedlaethol yn ogystal â rhanddeiliaid a grwpiau eraill, gyda fforwm Cenedlaethol Defnyddwyr Gwasanaethau, sydd â gofynion penodol er mwyn sicrhau bod pobl o grwpiau gwarchoddedig megis pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac ati wedi'u cynrychioli ar y fforwm, yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Gwneir gwaith hefyd gan Wasanaeth Gwella 1000 o Fywydau Iechyd Cyhoeddus Cymru, y trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth ar gynhyrchu dulliau o fesur canlyniadau'n seiliedig ar nodau defnyddwyr gwasanaeth sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth roi gwybod am eu canfyddiad o'r modd y cyflawnir canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Gwelliant Parhaus

Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn ein galluogi i fesur llwyddiant ein gwaith drwy ystod o dulliau o fesur canlyniadau, yn cynnwys rhai sy'n benodol i iechyd meddwl yn ogystal â dangosyddion mwy cyffredinol o newid ehangach.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae pobl iau, pobl hŷn a phobl anabl yn fwy tebygol o ddibynnu ar y gofal cymdeithasol a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus. Yn y cyd-destun hwn dengys rhagolygon y bydd newidiadau demograffig a disgwyliadau cynyddol ymysg y cyhoedd ochr yn ochr â chynnydd yn yr achosion o gyflyrau penodol sy'n fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn, megis dementia, yn cynyddu pwysau ar gostau gofal. Gwyddom fod gofalmwyr, pobl anabl ac eraill sy'n agored i niwed yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tloedi a phrofi allgáu cymdeithasol. Ar yr un pryd mae'r un tueddiadau hyn yn awgrymu y gallai mesurau ataliol wella lles ac arbed arian cyhoeddus dros y tymor hwy o dan yr amgylchiadau cywir. Mae'r dadansoddiad hwn yn cefnogi ein penderfyniad i gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ymhlith yr ystyriaethau allweddol ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon.

Mae ein penderfyniad i ddyrannu £21m ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cydnabod pwysigrwydd canolbwyntio ar gefnogi a chyflymu newid trawsffurfiol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn rhoi sylw i'r heriau hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth rheng flaen.

Mae ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi'u hymgorffori yn y rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru a gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r rhain yn gosod pwyslais ar les pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalmwyr sydd angen cymorth ochr yn ochr â sicrhau bod gan bobl lais llawer cryfach a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu cael, symleiddio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, a gwella lles yr holl bobl sy'n byw yng Nghymru.

Drwy amddiffyn rhaglenni hanfodol megis y rhaglen Cefnogi Pobl rydym wedi cydnabod cyfraniad pwysig gofal cymdeithasol i'r bobl fwyaf agored i niwed, boed am resymau'n ymwneud â henaint, anabledd neu'r angen i amddiffyn

plant. Mae'r rhaglen hon nid yn unig yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed ac wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ond mae hefyd yn helpu unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i gartref a'i gadw, ac i fyw'n annibynnol, yn ogystal â gwneud cyfraniad o bwys i'n agenda Trechu Tlodi. Mae'r rhaglen yn enghraifft o'r camau y gellir eu cymryd i atal neu leihau'r angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG a/neu ofal gymdeithasol. Mae'n helpu unigolion a theuluoedd ac mewn rhai achosion, yn cynorthwyo pobl sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Roedd gwariant cyhoeddus gros ar ofal gymdeithasol yn fwy na £19.6 biliwn yn 2014-15, gyda £0.2 biliwn wedi'i godi mewn ffioedd gan fod cymaint o wasanaethau gymdeithasol i oedolion yn ddarostyngedig i brawf modd. Mae'r gwariant hwn bron i gyd yn cael ei ariannu gan lywodraeth leol. Mae pwysau demograffig yn sgil cynnydd yn y disgwyliad oes ymhlith pobl hŷn a phobl sy'n anabl, ynghyd â thwf yn y galw am wasanaethau i blant, wedi golygu bod gwariant ar wasanaethau gymdeithasol wedi mwy na dyblu ers 2001-02. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau gymdeithasol ac mae'r ddarpariaeth yn gymysgedd o ddarpariaeth uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynir gan ddarparwyr y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gymdeithasol wedi darparu cyllid ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflawni'r fframwaith deddfwriaethol, gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau, awdurdodau lleol, y trydydd sector, y sector annibynnol a phartneriaid eraill i gydgyhyrchu cyfeiriad strategol ar gyfer y sector yng Nghymru, a meithrin a chyflymu newid trawsffurfiol yn y ffordd y mae gofal gymdeithasol yn cael ei ddarparu i ddinasyddion Cymru fel y nodir yn Gwasanaethau Gymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu. Bydd y ffocws ar gyfer 2016-17 ar sicrhau bod Deddf Gwasanaethau Gymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei gweithredu.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2016-17 yn cynnwys trosglwyddo £27m o'r Adran Gwaith a Phensiynau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Byw'n Annibynnol.

Effeithiau

Mae cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gymdeithasol yn cefnogi gweithrediad Deddf Gwasanaethau Gymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau y darperir gofal a chymorth i bobl o bob oed, fel rhan o deuluoedd a chymunedau. Mae'r Ddeddf yn gosod ffocws sylweddol ar wella canlyniadau a lles drwy gamau ataliol ac ymyrraeth gynnar, yn enwedig er mwyn sicrhau gofal a chymorth i ddiwallu anghenion pobl sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys plant, pobl hŷn, gofalwyr a phobl ag anabledau. Mae gweithredu a datblygu rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol sy'n deillio o'r Ddeddf wedi bod yn flaenoriaeth wrth baratoi ar gyfer y dyddiad y daw i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r ffocws ar gynyddu gwasanaethau gymdeithasol ataliol ac ymyrraeth gynnar yn ganolog i *Gwasanaethau*

Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu, ac mae dyletswyddau a phwerau i weithredu'r newid hwn bellach wedi'u gwneud yn gyfraith drwy'r Ddeddf.

Mae deddfwriaeth bellach i wella ansawdd gofal ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn cael ei datblygu drwy'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a fydd yn gwneud newidiadau i rôl arolygu, a lle bo angen, yn cryfhau'r gallu i fynd i'r afael â methiannau gwasanaethau fel y rhai a ganfuwyd gan Operation Jasmine yn narpariaeth cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio ar draws Gwent ar ddechrau'r 2000au.

Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn rhan sylweddol o'r farchnad lafur yng Nghymru. Yn 2015-16, darparodd Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol £7.15 miliwn i'w fuddsoddi mewn hyfforddiant i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar gyfer gwella ansawdd a rheolaeth y ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, gan ganolbwyntio yn 2015-16 ar eu paratoi ar gyfer newidiadau'n deillio o'r Ddeddf. Darperir y rhan fwyaf o'r arian grant hwn yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Darperir £1m o'r grant i Gyngor Gofal Cymru i ariannu'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen hyfforddi genedlaethol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf.

Y bwriad yw sicrhau y bydd y bobl sy'n derbyn arian o'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar hyn o bryd yn parhau i gael cefnogaeth yn sgil trosglwyddo'r cyllid. Yn y tymor byr mae'r cyllid a drosglwyddwyd yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i'w galluogi i barhau i roi cymorth ariannol i'r rhai a arferai dderbyn taliadau o'r Gronfa. Yn 2016 bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr rhanddeiliaid ar drefniadau datblygu hirdymor.

Ymgysylltu

Mae cydgyngyrchu polisïau gwasanaethau cymdeithasol newydd gyda defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol a phob partner darparu wedi ei ymgorffori yn y Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a phob un o'r newidiadau deddfwriaethol a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, a sefydlwyd gan y cyn Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, yn parhau i ddod ag arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr anweithredol at ei gilydd o bob rhan o'r system gofal cymdeithasol ac iechyd er mwyn llunio agenda ar y cyd ar gyfer newid. Mae'r panel dinasyddion gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol ar gyfer Cymru yn dod â phrofiad uniongyrchol defnyddwyr gwasanaethau i ganol y broses o lunio polisïau Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd ymgynghoriadau ffurfiol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a llunio diwygiadau deddfwriaethol i wasanaethau cymdeithasol a chynhaliwyd asesiadau effaith ar bob darn o is-ddeddfwriaeth.

Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy weithdy a fynychwyd gan oddeutu 200 o gynrychiolwyr a chyda chynrychiolwyr y Trydydd Sector, gan gynnwys Cynghrair y Cynghreiriau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sefydlwyd Grant newydd i'r Trydydd Sector ar gyfer 2016-17 yn sail i'r gwaith o gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn dilyn cylch ceisiadau

cystadleuol, bydd cyllid yn cael ei ddarparu i sefydliadau'r Trydydd Sector i helpu i gyflawni'r ddeddfwriaeth a'r polisi.

Tystiolaeth

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi tua 80,000 o oedolion, gan ddarparu gofal statudol i bobl â phroblemau iechyd meddwl, anabledau corfforol a dysgu a phobl hŷn eiddil. Cafodd dros 35,000 o blant yng Nghymru eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol yn 2014-15. Mae cofrestrau amddiffyn plant yn cofnodi 2,940 o achosion o esgeulustod, a cham-drin emosiynol, corfforol a/neu rywiol. Ceir 5,615 blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Mae'r rhagolygon ariannol yn anodd. Mae'r Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn canolbwyntio ar gefnogi a chyflymu newid trawsffurfiol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn rhoi sylw i'r heriau hyn a sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

Gwelliant parhaus

Ymgorfforwyd blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn y Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod dinasyddion yn cael llais llawer cryfach a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, symleiddio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, a gwella lles pob un o'n dinasyddion. Ffocws penodol ar gyfer 2016-17 fydd gweld Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dod i rym.

Iechyd y Cyhoedd

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phobl er mwyn helpu i ddiogelu eu hiechyd wrth iddynt fynd yn hŷn. Drwy ddiogelu ein buddsoddiad mewn iechyd cyhoeddus rydym wedi ymrwymo i ddarparu mwy o reolaeth dros iechyd a lles a mynediad cyflymach at gyngor a gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd fwyaf o'u hangen.

Bydd cyllidebau ar gyfer hybu iechyd, diogelu iechyd a mesurau ataliol yn cynyddu yn 2016-17. Mae'r cynnydd yn adlewyrchu ehangiad rhaglenni iechyd cyhoeddus megis imiwneiddio a sgrinio. Mae enghreifftiau o effaith y rhaglenni hyn yn cynnwys tua 35,000 o blant yng Nghymru yn cael brechiadau sylfaenol a phigiadau atgyfnerthu bob blwyddyn, mwy na 400,000 o bobl 65 oed neu hŷn yn cael brechiadau rhag y fflw a darparu gwasanaethau Sgrinio Retinopathi Diabetig i fwy na 111,000 o gleifion. Gyda'r gwasanaethau hyn, y nod yw cyffredinolïaeth gymesur, gan helpu pawb yn y gymuned, ond targedu cymorth yn unol â'r angen. Felly, er enghraifft, gwneir mwy o ymdrech ar hyn o bryd tuag at wneud yn siŵr fod grwpiau nad ydynt yn manteisio ar gyfleoedd sgrinio iechyd yn cael cymorth i wneud hynny.

At ei gilydd, mae'r cynnydd yn y cyllid i **Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn deillio o drosglwyddo cyllideb ac ymrwmiadau i'r dyraniad cyllid craidd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyllid craidd yn galluogi Iechyd Cyhoeddus

Cymru i gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cwmpasu gwella a diogelu iechyd, gwybodaeth ac ymchwil iechyd y cyhoedd, a rhaglenni sgrinio poblogaeth cenedlaethol ar gyfer pobl Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni llawer o'r camau gweithredu mewn perthynas â gwella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau o ran disgwyliad oes iach.

Bydd trosglwyddo **cyllid imiwneiddio** ychwanegol yn cynyddu'r cyllidebau imiwneiddio presennol ym mhob Bwrdd Iechyd ac yn gynrychiadol o'r rhaglen imiwneiddio sy'n ehangu yng Nghymru. Mae'r ehangiad yn cynnwys imiwneiddiadau rotafirws a ffliw i blant; rhaglen frechu reolaidd newydd rhag yr eryr ar gyfer pobl dros 70 oed, a chyflwynwyd rhaglen dal i fyny am amser cyfyngedig am y tro cyntaf ar gyfer rhai sy'n dechrau mewn prifysgol o dan 25 oed sydd mewn mwy o berygl o ddal Llid yr Ymennydd C. Mae Byrddau Iechyd wedi bod yn derbyn cyllid canol blwyddyn ychwanegol ar gyfer imiwneiddio mewn blynyddoedd blaenorol, felly nid yw'r trosglwyddiad hwn ond yn cadarnhau trefniadau sydd eisoes wedi bod ar waith ers peth amser a bydd yn awr yn caniatáu i Fyrddau Iechyd gynllunio gyda mwy o sicrwydd ar gyfer y maes polisi pwysig hwn. Mae imiwneiddio yn wasanaeth cyffredinol. Y nod yw creu "imiwnedd torfol", gan warchod pob rhan o'r gymuned yn gyfartal.

Gall camau gweithredu iechyd y cyhoedd gyfrannu at yr **agenda gofal iechyd darbodus**, a gwella effaith gwariant drwy hynny, er enghraifft drwy:

- helpu i rymuso pobl a'u cymunedau i gael mwy o reolaeth ar eu hiechyd ar sail cydgynhyrchu;
- datblygu camau ataliol ac ymyriadau cynnar effeithiol a all osgoi problemau drud yn nes ymlaen.

Er enghraifft, mae'r cyllid ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Galwedigaethol y GIG (£0.163m) yn seiliedig ar y cysylltiad rhwng iechyd a lles y staff ac ansawdd y modd y darperir gwasanaethau. Mae'n cefnogi ymdrechion i leihau effaith absenoldeb oherwydd salwch ar y GIG yng Nghymru drwy ddarparu cymorth arbenigol i feddygon, sy'n dioddef mwy o achosion o broblemau iechyd meddwl cyffredin na grwpiau proffesiynol eraill.

Mewn cyfnod o galedi, ac yng ngoleuni'r ffaith fod gennym boblogaeth sy'n cynyddu ac yn heneiddio gan arwain at fwyfwy o alw ar y GIG, ein polisi yw symud oddi wrth ffocws ar salwch a gorddibyniaeth ar ysbytai. Ein dull yw helpu dinasyddion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles drwy'r dull **cydgynhyrchu**, yn ogystal â datblygu GIG sy'n cael ei arwain gan ofal sylfaenol a chymunedol ataliol. Ceir pwyslais cryf ar ailgynllunio gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol wrth i anghenion y boblogaeth gael eu nodi. Manteisir ar bob cyfle i sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio fel timau effeithiol gyda ffocws ar y cyd ar anghenion unigolion a chymunedau lleol, gan ddarparu gwell iechyd ymhlith y boblogaeth drwy ofal sylfaenol a chymunedol cryfach mewn partneriaeth â'r rhan sy'n rhaid i'r cyhoedd ei chwarae hefyd yn eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae cefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ei Dîm Cynghori Gofal Meddygol Sylfaenol, Gwasanaeth Ansawdd a Gwybodaeth Gofal Sylfaenol ac Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus yn hanfodol ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys camau i liniaru

anhydraddoldebau ac effeithiau tlodi ac yn benodol, i wrthdroi'r 'ddeddf gofal wrthgyfartal' .

Yn gynyddol, y nod yw ailffocysu gwasanaethau ar wella iechyd a lles i bawb, gyda chyflymder y gwelliant yn cynyddu'n gymesur â lefel yr anfantais. Mae'r ymrwymiad hwn yn golygu cadw ein dyhead i wella disgwyliad oes iach i bawb ac i gau'r bwch rhwng pob cwintel amddifadedd 2.5% ar gyfartaledd, ond gan chwilio am ffyrdd newydd o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Mae ein gwaith hefyd yn cynnal un o'r tri amcan strategol yn y Strategaeth Tlodi Plant, sef lleihau'r anhydraddoldebau sy'n bodoli ar hyn o bryd ym maes iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi incwm isel.

Rydym yn ariannu ymgyrchoedd â blaenoriaeth, prosiectau a gwasanaethau sy'n targedu gwelliannau at rai mewn angen, megis y cynllun budd-dal Cychwyn Iach (£8.5m) sy'n darparu rhwyd ddiogelwch faethol i fenywod beichiog a phlant ifanc mewn teuluoedd difreintiedig. Mae cymorth parhaus tuag at gostau'r rhaglen imiwneiddio yn faes allweddol o wariant ataliol (£17.6m) a cheir buddsoddiad hefyd mewn data o ansawdd uchel ar lefel genedlaethol a lleol megis polisïau Arolwg Iechyd Cymru i gefnogi penderfyniadau buddsoddi ac olrhain effaith polisïau. Mae nifer o linellau cyllideb yn ymwneud â noddi cyrff cyhoeddus fel Iechyd Cyhoeddus Cymru (£80.5) ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr (£0.5m), gyda'r cyntaf yn gweld cynnydd o £4.4m yn 2016-17.

Mae'r datblygiadau newydd ym maes cynllunio iechyd a gofal sylfaenol yn creu sylfaen ar gyfer canolbwyntio'n well ar anghenion y boblogaeth gyfan. Bydd cynllunio ar sail ardaloedd bach yn galluogi gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol i dargedu gwahanol anghenion grwpiau gwahanol yn well a cheir parodrwydd cynyddol ar draws y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol i rannu gwybodaeth a chyfuno ymdrechion i wella iechyd a lles y boblogaeth gyfan. Dylai datblygu cynllunio ar gyfer poblogaethau ardaloedd bach effeithio'n gynyddol ar gynllun gwasanaethau ac ar iechyd dros y blynyddoedd nesaf.

Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda phobl er mwyn helpu i ddiogelu eu hiechyd wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae'r archwiliad iechyd newydd i bobl dros 50 oed yn cynnig cyngor hygyrch iawn i bawb dros 50 oed ynglŷn â'u hiechyd a ffynonellau cymorth sy'n darparu mwy o reolaeth i ddefnyddwyr a dargedir dros eu hiechyd a'u lles, mynediad cyflymach at gyngor a gwasanaethau a help i oresgyn problemau llythrennedd iechyd. Cafodd y gwasanaeth ei dreialu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn sicrhau sylfaen gref iddo yno ac er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd iddo a'i ddefnyddio'n hawdd.

Rydym hefyd yn cydnabod bod y gwasanaeth iechyd a'r sector iechyd ehangach yn chwarae rhan hanfodol fel sylfaen ac ysgogiad i'n heconomi, gan helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd economaidd a lleihau rhesymau economaidd dros afiechyd. Mae'r GIG yn rhan bwysig iawn o'r economi genedlaethol o ran cyflogaeth, caffael, buddsoddi cyfalaf ac arloesi. Yn

gynyddol, manteisir ar y cyfleoedd i ddefnyddio dylanwad a chyllideb y GIG i ddylanwadu ar obeithion pobl o gael iechyd da drwy well cyflogaeth a chyfrannu at ffyniant. Mae ein rhaglenni yn ceisio lliniaru effaith tlodi a gwella cyfleoedd bywyd pobl gan gefnogi amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod bod y gwasanaeth iechyd a'r sector iechyd ehangach yn chwarae rhan hanfodol yn sail i ysgogi ein heconomi, helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd economaidd a lleihau rhesymau economaidd dros afiechyd. Mae'r Is-adran Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn darparu seilwaith ar gyfer cefnogi a chynyddu gallu ym maes Ymchwil a Datblygu, yn arwain nifer o gynlluniau ariannu ymatebol ac yn rheoli dyraniad cyllid Ymchwil a Datblygu y GIG. Mae darganfyddiadau blaengar niferus drwy ymchwil wedi arwain at ffyrdd newydd ac arloesol o atal a thrin afiechyd, lleihau niwed/gwastraff/amrywio, a threchu tlodi ac anghydraddoldeb, yn ogystal â chyllid parhaus yr elfen ymchwil a datblygu o arloesi mewn gofal iechyd. Yn 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fuddsoddiad o £10m ar gyfer cronfa i hyrwyddo Effeithlonrwydd Drwy Dechnoleg yn y GIG yng Nghymru. Bydd y gronfa hon yn parhau yn 2016-17 a'i nod yw cyflymu'r broses o arddangos, gwerthuso a mabwysiadu cynhyrchion a gwasanaethau newydd mewn ymarfer, gan gynyddu effeithlonrwydd a darparu gwell canlyniadau i gleifion, yn unol ag egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus.

Ymgysylltu

Argymhellodd y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes y dylid trosglwyddo arian Hosbisau am ei fod yn ystyried y byddai'n fwy priodol i'r arian hwn gael ei ddosbarthu a'i reoli gan y byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd. Câi'r gymuned hosbis ei chynrychioli ar y Bwrdd Gweithredu Gofal Diwedd Oes gan Hosbisau Annibynnol Cymru, y corff sy'n cynrychioli hosbisau yng Nghymru. Cynhaliwyd gweithdy fis Rhagfyr diwethaf lle bu darparwyr hosbisau, ac arweinwyr gofal lliniarol byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn trafod trefniadau gwaith a materion ariannu. O 1 Ebrill 2015, trosglwyddwyd cyllid hosbisau i'r byrddau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal rôl fonitro dros gyllid i hosbisau.

Annex D

NHS Approved Projects

Organisatio n	Scheme (estimated completion date)	Total funding allocated £m	Funding previously provided £m	2016-17 indicative funding profile £m	Funding requirement remaining years £m
Abertawe Bro Morgannwg	Health Vision Swansea - Outpatients (December 2015)	60.007	58.007	2.000	-
Abertawe Bro Morgannwg	Health Vision Swansea – Clinical and Diabetic Accommodatio n (April 2016)	21.347	5.546	13.629	2.200
Abertawe Bro Morgannwg	Emergency Department Clinical Information Management System (2016- 17)	3.582	2.241	1.033	-
Abertawe Bro Morgannwg	Cardiac Intensive Care (June 2016)	6.660	4.860	1.800	-
Betsi Cadwaladr	Ysbyty Glan Clwyd Redevelopme nt (January 2018)	110.533	106.615	3.400	-
Betsi Cadwaladr	Blaenau Ffestiniog Integrated Resource Centre (January 2017)	3.944	0.451	3.493	-
Betsi Cadwaladr	Tywyn Primary and Community Care (January 2016)	5.062	4.993	0.070	-
Betsi	Patient	3.088	1.268	1.449	0.371

Cadwaladr	Administration System (2017-18)				
Betsi Cadwaladr	Emergency Department Clinical Information Management System (2016-17)	1.265	0.264	1.001	-
Betsi Cadwaladr	Sub Regional Neonatal Intensive Care Centre – Business case development and electrical infrastructure (March 2018 for whole scheme)	1.424	1.292	0.132	-
Cardiff & Vale	Neonatal Phase 1 UHW (Spring 2016)	7.472	3.280	4.192	-
Hywel Dda	Bronglais – Front of House (February 2016)	45.500	43.695	1.805	-
Hywel Dda	Prince Philip Unscheduled Care (May 2016)	1.406	0.962	0.444	-
NWIS	Intelligent Integrated Audit tool (2020-21)	0.757	0.683	0.016	0.058
NWIS	Patient Administration System (2017-18)	3.158	-	-	-
Velindre	Velindre Cancer Centre – Business Case Development (OBC – Summer 2016; FBC – Early 2018)	5.181	3.017	2.164	-
Velindre	Welsh Blood	2.046	1.681	0.365	-

	Service (May 2016)				
Velindre	Linacc replacement (October 2016)	4.814	4.440	0.320	-
Welsh Ambulance	Planning and Dispatching System (April 2016)	0.759	0.535	0.224	-

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/3325>

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2015

Amser: 09.16 – 12.55

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	<p>David Rees AC (Cadeirydd)</p> <p>Alun Davies AC</p> <p>John Griffiths AC</p> <p>Altaf Hussain AC</p> <p>Elin Jones AC</p> <p>Lynne Neagle AC</p> <p>Gwyn R Price AC</p> <p>Lindsay Whittle AC</p>
Tystion:	<p>Adam Cairns, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Darron Dupre, UNSAIN Cymru</p> <p>Mick Giannasi, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</p> <p>Stephen Harrhy, Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans</p> <p>Nathan Holman, GMB</p>



	<p>Yr Athro Siobhan McClelland, Cadeirydd – y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys</p> <p>Richard Munn, Undeb Unite</p> <p>Tracy Myhill, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru</p> <p>Lisa Turnbull, Coleg Brenhinol y Nyrsys</p> <p>Allison Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf</p>
Staff y Pwyllgor:	<p>Llinos Madeley (Clerc)</p> <p>Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)</p> <p>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd)</p>

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a Kirsty Williams.

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).

2 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

2.2 Datganodd Alun Davies y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae'n aelod o UNSAIN Cymru.

2.2 Cytunodd Darron Dupre a Lisa Turnbull i ddarparu data arolwg staff i'r Pwyllgor.

3 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

4 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

5 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

5.2 Cytunodd Tracy Myhill i ddarparu data i'r Pwyllgor ynghylch perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer mis Hydref 2015, wedi'u trefnu yn ôl ardal awdurdod lleol.

6 Papurau i'w nodi

6.1 Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 a 25 Tachwedd 2015

6.1a Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

6.2 Etifeddiaeth Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad: gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid

6.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

6.3 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru: gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau

6.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

7.2 Cynigiodd y Cadeirydd hefyd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 1 y cyfarfod ar 14 Ionawr 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi). Cytunwyd ar hyn.

8 Ymchwiliad dilynol i berfformiad y Gwasanaethau Ambiwylans yng Nghymru: trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Etifeddiaeth Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad: ystyried ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ynglŷn ag etifeddiaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd gan gytuno i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid.

10 Blaenraglen waith y Pwyllgor

10.1 Nododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/MD/1451/15

Ann Jones AM
Chair
Children, Young People and Education Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

4 January 2016

Dear Ann,

Thank you for your letter dated 9 December regarding future funding for Child Contact Centres in Wales.

CAFCASS Cymru funds child contact services in Wales in respect of CAFCASS Cymru referrals made within the family court system.

Changes to legal aid introduced by the UK Government in April 2013, combined with the introduction of the Child Arrangements Programme in April 2014, has seen a reduction of more than 60% in the number of CAFCASS Cymru referrals to child contact centres in Wales during 2014-15 compared to 2013-14. There was also a 26% reduction in the number of private law applications heard by the family court in 2014-15.

In view of this significant reduction, in March 2015 CAFCASS Cymru met with the National Association of Child Contact Centres, in its role as the network manager for child contact services in Wales, and all current providers to discuss a proposed review of funding arrangements. It was explained funding levels would not be continued at the same level unless workloads resulting from CAFCASS Cymru referrals increased significantly. All providers were strongly encouraged to consider sustainability options beyond a reliance on Government funding.

There has been a very limited recovery in CAFCASS Cymru referrals to child contact providers in the first half of 2015-16, but the numbers are still very low compared to previous years.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 81

I recently approved recommendations for future funding arrangements for referrals made by CAF/CASS Cymru to child contact services in Wales which enable CAF/CASS Cymru to continue to support existing providers in the work they do, but is more equitable in its distribution and more reflective of work undertaken.

I recognise the impact the original funding proposals CAF/CASS Cymru discussed with providers would have had on child contact services as a result of the significant drop in CAF/CASS Cymru referrals, reflective of wider family justice changes. To ameliorate this, providers currently in receipt of funding who will receive less under the new funding formula will receive an additional one-off transitional arrangement fee of £2,000 in 2016-17. CAF/CASS Cymru has written to contact service providers to outline the details.

I trust this additional transitional arrangement fee will minimise the impact of reduced funding on providers and will allow for a smoother transition. It will also give providers extra time to consider sustainability options beyond a reliance on government funding, which will be crucial if CAF/CASS Cymru referral numbers continue to be low.

In response to the issues raised about financial funding to support contact centres for work with families outside the Family Court system, I understand there is currently no funding provided to contact centres other than that from CAF/CASS Cymru. As you will be aware, Welsh Ministers have to operate within the restrictions of the funding provided to the Welsh Government by the UK Government which has reduced funding to Wales by 10% over the lifetime of the fourth Assembly.

Thank you for writing to me about this matter.

Best wishes,

Mark

Mark Drakeford AC / AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon